Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Rhybuddiadau Dargyfeiriol a Chymunedol

# Cod Ymarfer Drafft

Awst 2023

CP 850

Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Rhybuddiadau Dargyfeiriol a Chymunedol –

# Cod Ymarfer

## Rhan 6 o Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
drwy Orchymyn Ei Fawrhydi

Awst 2023

CP 850

**© Hawlfraint y Goron 2023**

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle'r ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint cysylltiedig.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn oocd.consultation@justice.gov.uk.

ISBN 978-1-5286-4375-7E 02950279 08/23

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ffeibrau eildro

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Cyf ar ran
Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Am yr ymgynghoriad hwn

| | |
|---|---|
| **I:** | Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i anelu at asiantaethau erlyn a awdurdodwyd i wneud defnydd o'r Cod Ymarfer yn eu gweithrediadau, yn cynnwys Erlynwyr yr Heddlu a'r Goron. Rydym hefyd yn croesawu sylwadau gan aelodau o'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol yn sectorau'r gyfraith, awdurdodau lleol, iechyd, melinau trafod, ymchwil ac elusennol. |
| **Hyd:** | O 02/08/23 i 13/10/23 |
| **Ymholiadau (yn cynnwys ceisiadau am gael y papur mewn fformat arall) i:** | Youth Justice and Offender Policy Directorate; Probation Policy – Community Diversion<br>Post Point 7.14<br>Ministry of Justice<br>102 Petty France<br>London<br>SW1H 9AJ<br><br>E-bost: oocd.consultation@justice.gov.uk |
| **Sut i ymateb:** | Anfonwch eich ymateb erbyn 13/10/2023 i:<br><br>Youth Justice and Offender Policy Directorate; Probation Policy – Community Diversion<br>Post Point 7.14<br>Ministry of Justice<br>102 Petty France<br>London<br>SW1H 9AJ<br><br>E-bost: oocd.consultation@justice.gov.uk |
| **Papur ymateb:** | Mae ymateb i'r ymgynghoriad hwn i gael ei gyhoeddi erbyn 12/01/23 yn: https://consult.justice.gov.uk/ |

# Cynnwys


**Rhagair** 3

**Crynodeb gweithredol** 5

**Cyflwyniad** 7

**Y cynigion** 8

**Rhybuddiadau Dargyfeiriol a Chymunedol – Cod Ymarfer Drafft** 9

Cymhwyso'r Cod Ymarfer 10

Rhan 1: Cyflwyniad 11

Rhan 2: Nod a phwrpas 11

Rhan 3: Esboniad o'r rhybuddiadau 12

Rhan 4: Cymhwystra 14

Rhan 5: Penderfynu 16

Rhan 6: Amodau 23

Rhan 7: Cosbau ariannol 28

Rhan 8: Troseddwyr sy'n Wladolion Tramor 30

Rhan 9: Gweinyddu a phroses 33

Rhan 10: Cofnodion troseddol 42

Rhan 11: Craffu a thryloywder 43

Rhan 12: Materion yn codi ar ôl gweinyddu 44

Atodiad A – Cymharu datrysiadau 45

Atodiad B – Egwyddorion ar gyfer Rhybuddiadau Dargyfeiriol Cam-drin Domestig 48

Atodiad C – Troseddau eithriedig penodedig 51

Atodiad D – Amodau enghreifftiol 55

Atodiad E – Diffiniadau 57

**Holiadur** 59

**Amdanoch chi** 63

**Manylion cyswllt/Sut i ymateb** **64**

Cwynion neu sylwadau 64

Copïau ychwanegol 64

Cyhoeddi ymateb 64

Grwpiau cynrychiadol 64

Cyfrinachedd 65

**Asesiad o’r Effaith, Cydraddoldebau a’r Iaith Gymraeg** **66**

Asesiad o’r effaith 66

Cydraddoldebau 66

**Egwyddorion ymgynghori** **70**

## Rhagair

Cymerir camau cadarn drwy’r llysoedd bob amser yn erbyn troseddwyr cyson, difrifol, er diogelwch y cyhoedd.

Ond yn achos troseddau ar lefel is a gyflawnwyd am y tro cyntaf, gellir gweld mai delio’n gyflym a chymesur â’r drosedd y tu allan i’r llys fydd y ffordd fwyaf effeithiol i weinyddu cyfiawnder. Mae Datrysiad y Tu Allan i’r Llys (DTALl) yn gallu rhoi llais i ddioddefwyr, gan ddelio’n gadarn a theg yr un pryd â’r troseddwr a’i drosedd.

Ar hyn o bryd, mae DTALlau yn cwmpasu ystod o sancsiynau a ddefnyddir gan yr Heddlu ac awdurdodau erlyn eraill i ddelio â throseddu ar lefel is, lle nad yw mynd i’r llys er budd y cyhoedd. Maent yn ffordd bwysig i fynd i’r afael â chychwyniadau ymddygiad troseddol.

Er cymaint eu gwerth, mae’r fframwaith presennol o DTALlau wedi mynd yn anhylaw – clytwaith o rybuddiadau statudol ac anstatudol, rhybuddion a chosbau yr ychwanegwyd ato fesul tipyn dros y blynyddoedd. Mae’r DTALlau hyn yn dod ag amrywiaeth o ganlyniadau i’r troseddwr, yn hytrach na gosod amodau gorfodol wedi’u teilwra yn ôl y drosedd.

Dyna pam roeddem wedi cyflwyno fframwaith symlach a chryfach o DTALlau, drwy Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a’r Llysoedd 2022, a oedd yn cynnwys dau rybuddiad newydd mewn dwy haen i’w cymhwyso at droseddwyr 18 oed a hŷn. Bydd y Rhybuddiad Dargyfeiriol (haen uchaf) a’r Rhybuddiad Cymunedol (haen isaf) yn disodli’r cymysgedd presennol o DTALlau ac yn rhoi yn ei le fframwaith mwy cadarn a chyson o sancsiynau y tu allan i’r llys ledled Cymru a Lloegr.

Os torrir amodau sydd wedi’u hatodi i Rybuddiad Cymunedol, gall hynny arwain at ddirwy a gaiff ei chofrestru gyda’r Llys Ynadon, tra bydd torri Rhybuddiad Dargyfeiriol yn gallu arwain at erlyn am y drosedd wreiddiol. Mae’r dilyniant hwn yn ei gwneud yn glir i droseddwyr fod canlyniadau i’w gweithredoedd.

Rhaid i droseddwyr gyfaddef eu trosedd i fod yn gymwys i gael y rhybuddiadau newydd, a hynny’n golygu derbyn cyfrifoldeb am eu gweithredoedd a derbyn eu cosb.

Bydd y rhybuddiadau newydd yn cryfhau’r fframwaith DTALlau drwy sicrhau bod amodau ystyrlon yn cael eu hatodi. Rhaid gosod un neu ragor o amodau wrth roi’r ddau fath o rybuddiad, gan roi’r lle blaenaf i amodau adsefydlu a gwneud iawn sy’n gallu helpu i fynd

i'r afael ag achosion sylfaenol y drosedd neu wneud iawn yn uniongyrchol â'r dioddefwr neu'r gymuned leol. Mae cosbau ariannol ar gael hefyd lle bo'n briodol.

Byddai amodau adsefydlu a gwneud iawn yn gallu cynnwys cyrsiau o driniaeth sydd â'r bwriad o helpu'r troseddwr i ddelio â phroblem isorweddol yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau, tâl i ddigolledu'r dioddefwr, neu leoliadau gwaith di-dâl pwrpasol i wneud iawn am y difrod a achoswyd drwy'r drosedd – er enghraifft, glanhau graffiti. Bydd yr ystod hon o amodau yn caniatáu dull hyblyg i ddelio â phob achos ar ei ben ei hun gyda chanlyniadau caletach i'r troseddwr.

Bodlonrwydd dioddefwyr a'u gallu i gymryd rhan yw'r hyn sy'n cynnal hyder y cyhoedd yn y system gyfiawnder, ac rydym am ymgorffori hyn yn y defnydd o DTALlau yn y dyfodol. Dyna pam rydym yn cryfhau lle dioddefwyr ar ganol y broses penderfynu ar gyfer y rhybuddiadau newydd – bydd yr Heddlu a phenderfynwyr eraill yn gorfod ystyried eu barn wrth benderfynu a fyddant yn rhoi rhybuddiad, a pha amodau y byddant yn eu hatodi.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn amlinellu'r Cod Ymarfer drafft ar gyfer Rhybuddiadau Dargyfeiriol a Chymunedol. Unwaith y bydd wedi'i gwblhau, bydd y Cod newydd yn darparu canllawiau gweithredol ar ddefnyddio, gweinyddu a chraffu ar y rhybuddiadau newydd. Fe'i defnyddir gan yr Heddlu, Erlynwyr y Goron a chyrff awdurdodedig eraill wrth ystyried sancsiynu trosedd y tu allan i'r llys.

Mae'r Cod Ymarfer drafft yn amlinellu ein cynigion ar y ffordd y bydd y rhybuddiadau newydd yn gweithio, yn cynnwys ffactorau i'w hystyried ym mhob achos ar gyfer eu defnyddio eilwaith a'r cosbau ariannol sydd ar gael. Rydym hefyd yn cynnig eithrio rhai troseddau difrifol rhag delio â nhw drwy'r rhybuddiad haen isaf, gan anfon neges glir y bydd camau'n cael eu cymryd yn erbyn troseddau difrifol drwy'r llysoedd.

Rydym wedi cydweithio'n agos â rhanddeiliaid ar draws y system gyfiawnder i ddatblygu'r Cod Ymarfer drafft ac rwyf yn ddiolchgar am eu barn, sydd wedi cyfrannu at siapio'r gwaith hwn hyd yn hyn.

Rwyf yn annog pawb sydd â diddordeb yn y maes hwn i gyfrannu i'r ymgynghoriad hwn. Mae'n hollbwysig i chi barhau i gymryd rhan a chynnig adborth wrth i ni gwblhau'r Cod Ymarfer a bwrw ymlaen â'r rhybuddiadau newydd, sydd yn dal y ddysgl yn wastad rhwng amddiffyn y cyhoedd a dull cadarn ond teg o ddelio â throseddau lefel is.



Y Gwir Anrhydeddus Damian Hinds AS

Y Gweinidog Gwladol dros Gyfiawnder

# Crynodeb gweithredol

Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys (DTALlau) yw'r term sy'n cael ei arfer am nifer o wahanol sancsiynau cyn cyhuddo a ddefnyddir gan yr Heddlu ac asiantaethau erlyn eraill i ddelio â throseddu llai difrifol. Y nod wrth ddefnyddio DTALlau yw lleihau'r perygl i bobl gael eu tynnu ymhellach i'r system llysoedd a chyfiawnder troseddol nag sydd ei angen, drwy ddefnyddio dargyfeiriadau yn y gymuned mewn achosion lle nad oes budd i'r cyhoedd mewn erlyn.

Roedd Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 wedi cyflwyno diwygiadau newydd i ddisodli'r fframwaith presennol o rybuddion, cosbau a rhybuddiadau gan roi fframwaith dwy haen statudol newydd yn ei le. Mae'r fframwaith diwygiedig hwn yn cynnwys:

- Y Rhybuddiad Dargyfeiriol, sef y datrysiad haen uchaf sydd ag amodau wedi'u hatodi. Os torrir amodau, gall hynny arwain at erlyn am y drosedd wreiddiol.
- Y Rhybuddiad Cymunedol, sef y datrysiad haen isaf sydd ag amodau wedi'u hatodi. Os torrir amodau, gall hynny arwain at osod cosb ariannol. Bydd diffyg cydymffurfio ag amodau hefyd yn gallu arwain at ddirwy llys ond ni ellir erlyn am hynny.

Mewn amgylchiadau priodol, bydd yr Heddlu hefyd yn cadw'r defnydd o'r Datrysiad Cymunedol anstatudol presennol. Unwaith y bydd y fframwaith rhybuddiadau newydd wedi'i weithredu, bydd y pum DTALl arall sydd ar gael ar hyn o bryd yn cael eu diddymu, sef Rhybuddiadau Canabis, Rhybuddiadau Khat, Hysbysiad Cosb am Anhrefn, Rhybuddiad Syml Oedolyn, a Rhybuddiad Amodol Oedolyn.

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i roi fframwaith DTALlau symlach ar waith sydd yn haws ei ddeall gan ymarferwyr a'r cyhoedd. Mae hyn yn mynd law yn llaw â ffocws ar ddioddefwyr ac atodi amodau ystyrlon i Rybuddiadau Dargyfeiriol a Rhybuddiadau Cymunedol i helpu i ddelio ag achosion sylfaenol ymddygiad troseddol.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â'r Cod Ymarfer drafft ar gyfer y Rhybuddiadau Dargyfeiriol a Rhybuddiadau Cymunedol newydd. Mae'r Cod yn gosod y paramedrau gweithredol ar gyfer defnyddio, gweinyddu a chraffu ar y rhybuddiadau newydd gan yr Heddlu a phersonau awdurdodedig eraill.

Drwy ofyn cyfres o gwestiynau, mae'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn yn ceisio barn am effaith weithredol ac ymarferoldeb y Cod Ymarfer sydd newydd ei ddrafftio ar gyfer y fframwaith dwy haen statudol. Mae hyn yn cynnwys, ymysg pethau eraill, barn am y ffyrdd o ymdrin â'r cosbau ariannol mwyaf, troseddau eithriedig, a defnydd mynych o

rybuddiadau. Byddai'r Llywodraeth yn hoffi clywed hefyd gan unrhyw bersonau awdurdodedig neu gyrff erlyn am y ffordd y mae'r fframwaith rhybuddiadau newydd yn cyd-fynd â'u hanghenion gweithredol.

Edrychwn ymlaen at weld y sylwadau a gyflwynir drwy'r ymgynghoriad hwn a byddwn yn croesawu pob barn a wnaiff ein helpu i gryfhau'r Cod Ymarfer drafft ymhellach. Bydd y llywodraeth yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad wrth benderfynu a oes angen diwygiadau i'r Cod Ymarfer drafft ac er mwyn hyrwyddo camau pellach i weithredu'r fframwaith DTALlau newydd. Wedi i'r ymgynghoriad ddod i ben, cyhoeddir ymateb i'r ymgynghoriad gan lywodraeth. Wedyn bydd y Cod Ymarfer gorffenedig yn cael ei osod gerbron dau Dŷ'r Senedd a'i weithredu'n ffurfiol drwy is-ddeddfwriaeth.

Mae'r broses ymgynghori hon yn cwrdd â'r gofyniad statudol o dan adran 116(3) o Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi Cod Ymarfer drafft ac ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir i'r Ysgrifennydd Gwladol am y drafft.

# Cyflwyniad

Mae’r papur hwn yn cyflwyno’r Cod Ymarfer ar gyfer Rhybuddiadau Dargyfeiriol a Chymunedol sydd newydd ei ddrafftio er mwyn ymgynghori arno. Gofynnir nifer o gwestiynau er mwyn deall effaith y Cod Ymarfer ar weithrediadau a cheisio barn fwy cyffredinol am y fframwaith dwy haen statudol newydd ar gyfer Datrysiadau y Tu Allan i’r Llys (DTALlau). Mae’r ymgynghoriad wedi’i anelu at asiantaethau erlyn a phersonél awdurdodedig a fydd yn gwneud defnydd gweithredol o’r Cod Ymarfer yng Nghymru a Lloegr, fel yr Heddlu ac Erlynwyr y Goron. Byddwn hefyd yn croesawu barn aelodau o’r cyhoedd.

Mae’r Asesiad o’r Effaith a gyhoeddwyd gyda Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a’r Llysoedd 2022 yn dangos nad yw’n debygol y bydd effaith neilltuol ar yr Heddlu (yn cynnwys yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig), Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF, Gwasanaeth Erlyn y Goron, troseddwyr, darparwyr triniaeth, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, na dioddefwyr. Nid yw’n debygol y bydd y cynigion yn arwain at gostau ychwanegol neu arbedion i’r sector gwirfoddol na’r sector cyhoeddus. Mae diweddariad o’r Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldebau hefyd wedi’i atodi i’r ymgynghoriad hwn.

Mae’r Asesiad o’r Effaith ar gael yn https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1073440/MOJ_Sentencing_IA_-_OOCD__2022_.pdf.

Anfonir copïau o’r papur ymgynghori at aelodau o’r Senedd sydd â diddordeb, i’r Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder, Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, Arweinwyr ar DTALlau mewn heddluoedd, Coleg yr Heddlu, Cymdeithas Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi, Cymdeithas Llywodraeth Leol, Cymdeithas yr Ynadon, yn ogystal ag amryw o randdeiliaid eraill. Bydd copïau o’r papur ymgynghori yn cael eu hanfon hefyd i Gymdeithasau Staff, sef Ffederasiwn Heddlu Cymru a Lloegr, Cymdeithas Uwch-arolygwyr yr Heddlu ac Unison. Nid oes bwriad i’r rhestr hon fod yn un derfynol na chyfyngol a bydd croeso i ymatebion gan unrhyw un sydd â diddordeb yn y pwnc sydd dan sylw yn y papur hwn neu farn amdano.

# Y cynigion

Mae’r Cod Ymarfer drafft ar gyfer Rhybuddiadau Dargyfeiriol a Chymunedol wedi’i amgáu yma.

# Rhybuddiadau Dargyfeiriol a Chymunedol – Cod Ymarfer Drafft

Rhan 6 o Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022

## Cymhwyso'r Cod Ymarfer

1. Mae'r Cod Ymarfer hwn yn ganllawiau statudol a ddyroddwyd o dan ddarpariaethau adran 116 o Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 ("y Ddeddf") ac mae'n disodli'r holl ganllawiau a gyhoeddwyd o'r blaen yn ymwneud â Rhybuddiadau Amodol Oedolyn (2013), Hysbysiadau Cosb am Anhrefn (2014) a Rhybuddiadau Syml Oedolyn (2015).

2. Mae'n gymwys dim ond i bersonau 18 oed a hŷn lle mae'r Heddlu, Erlynwyr y Goron neu awdurdodau erlyn eraill yn ystyried datrys trosedd drwy roi Rhybuddiad Dargyfeiriol neu Rybuddiad Cymunedol.

3. Mae'n gymwys i'r Heddlu (yr holl heddluoedd yng Nghymru a Lloegr, yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, y Gwnstabliaeth Niwclear Sifil a Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn), Erlynwyr y Goron (Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS)), awdurdodau erlyn eraill a enwir, a phersonau awdurdodedig sydd wedi'u diffinio gan a.98(7) o'r Ddeddf.

4. Mae'n egluro beth fydd yr Heddlu, y CPS ac awdurdodau erlyn eraill a enwir yn gorfod ei wneud i gydymffurfio â'r gyfraith. Fel canllawiau statudol, mae'n ceisio ymhelaethu ar y ddeddfwriaeth sylfaenol ond ni all newid unrhyw ran ohoni. Os byddant yn ansicr o gwbl ynghylch cwmpas Rhybuddiadau Dargyfeiriol neu Rybuddiadau Cymunedol, dylai defnyddwyr awdurdodedig ac awdurdodau erlyn gyfeirio at y ddeddfwriaeth sylfaenol.

5. Rhaid ei ddarllen ar y cyd â chanllawiau a ddyroddwyd gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ("y DPP"), awdurdodau erlyn eraill, a pholisi lleol.

6. Nid yw'r Cod hwn na'r Ddeddf yn effeithio ar barhad y defnydd o Hysbysiadau Cosb Benodedig, a roddir o dan ddeddfwriaeth ar wahân.

## Rhan 1: Cyflwyniad

1.1 Roedd Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 ("y Ddeddf") wedi cyflwyno newidiadau yn y fframwaith Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys ("DTALlau") ar gyfer personau 18 oed a hŷn. Ochr yn ochr â Datrysiadau Cymunedol, y bydd yr Heddlu yn parhau i'w defnyddio fel yr unig ddatrysiad anstatudol sy'n aros, mae'r Ddeddf yn sefydlu dwy haen o rybuddiadau statudol sy'n ffurfio'r fframwaith newydd ar gyfer DTALlau. Mae'r fframwaith newydd ar gyfer DTALlau yn diddymu'r Rhybuddiad Syml Oedolyn, y Rhybuddiad Amodol Oedolyn, Hysbysiadau Cosb am Anhrefn, a Rhybuddion Canabis a Khat.

1.2 Mae'r Ddeddf yn cyflwyno **Rhybuddiadau Dargyfeiriol** a **Chymunedol**. Rhaid atodi un neu ragor o amodau i'r rhybuddiadau hyn, gyda'r bwriad o adsefydlu a/neu wneud iawn. Gellir gosod cosb ariannol fel yr unig amod cosbol sydd ar gael.

1.3 Mae'r Cod Ymarfer hwn yn darparu rhagor o fanylion am ddefnyddio'r fframwaith newydd ac yn rhoi mwy o bwyslais ar benderfynu fesul achos. Dylid grymuso personau awdurdodedig i wneud penderfyniadau ar sail holl amgylchiadau'r achos ac unrhyw farn sydd gan y dioddefwr. Felly, mae hyn yn golygu ein bod yn cryfhau rhwymedigaethau i gofnodi'r sail resymegol gyfan dros wneud penderfyniad penodol fel y bydd mwy o hyder gan ddioddefwyr a chymunedau mewn penderfyniadau ar ddatrys a wneir yn rheng flaen y system cyfiawnder troseddol.

**Trefniadau trosiannol**

1.4 Unwaith y dechreuir eu defnyddio, dim ond Rhybuddiad Dargyfeiriol neu Gymunedol y gellir ei roi am drosedd, ar ba ddyddiad bynnag y cafodd ei chyflawni. Yn unol ag adran 118(4) o'r Ddeddf, mae Rhybuddiadau Amodol Oedolyn a Hysbysiadau Cosb am Anhrefn a roddwyd cyn y dyddiad gweithredu yn cael eu cadw a rhaid cwblhau'r amodau a'r cosbau ariannol a atodwyd iddynt.

## Rhan 2: Nod a phwrpas

2.1 Mae DTALlau yn gyfle i ddarparu ymyrraeth a chymorth yn gynnar ar gyfer troseddwyr, yn cynnwys eu dargyfeirio i wasanaethau adsefydlu sy'n helpu i leihau cynnydd mewn troseddu. Wrth eu defnyddio, cydnabyddir amcanion strategol Llywodraeth Ei Fawrhydi a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu i sefydlu fframwaith lle defnyddir amodau i ymdrin ag achosion sylfaenol ymddygiad troseddol.

2.2 Mae Rhybuddiadau Dargyfeiriol a Chymunedol yn ceisio delio â gwahanol lefelau o ymddygiad troseddol ochr yn ochr â darparu canlyniadau cymesur am dorri amodau. Pwrpas Rhybuddiadau Cymunedol (datrysiad yr haen isaf) yw delio â throseddau llai nag a wneir drwy'r Rhybuddiad Dargyfeiriol ac maent yn gymwys i achosion lle na fyddai budd i'r cyhoedd mewn erlyn am dorri amodau. Gweithredwyd y cyfyngiadau ar argaeledd y

Rhybuddiad Cymunedol ar gyfer rhai troseddau er mwyn sicrhau hyder ychwanegol yn y defnydd ohono ymysg y cyhoedd. Mae'r Rhybuddiad Dargyfeiriol (haen uchaf) wedi'i fwriadu ar gyfer troseddau mwy difrifol lle mai'r ffordd orau i sicrhau budd y cyhoedd yw drwy erlyn am dorri amodau.

2.3 Oherwydd strwythur haen uchaf a haen isaf y Rhybuddiadau Dargyfeiriol a Chymunedol, y gofyniad i'r troseddwr gyfaddef y drosedd, ac atodi amodau adsefydlu a gwneud iawn y mae'r troseddwr yn gorfod eu derbyn, gall y rhybuddiadau hyn gynnig canlyniadau effeithiol ar gyfer troseddau lefel is a throseddau tro cyntaf. Gallai'r rhain gynnwys troseddau cyffuriau personol neu achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol, lle gellir gofyn i'r troseddwr un ai delio â'r ffactorau sydd wrth wraidd ei gamddefnydd o sylweddau neu ymgymryd â gweithgarwch i wneud iawn â'r dioddefwr neu'r gymuned ehangach.

2.4 Mae Rhybuddiad Cymunedol yn ddatrysiad sy'n terfynu achos oherwydd, unwaith y bydd wedi'i weinyddu, ni ellir erlyn am y drosedd wreiddiol. Nid yw Rhybuddiad Dargyfeiriol yn ddatrysiad sy'n terfynu achos, gan fod modd o hyd iddo arwain at erlyn am y drosedd wreiddiol os na fydd y troseddwr yn cydymffurfio ag un neu ragor o'r amodau a atodwyd i'r rhybuddiad a bod toriad yn digwydd.

2.5 Mae Datrysiadau Cymunedol anstatudol yn aros yn ddewis heblaw rhoi rhybuddiad yn y fframwaith DTALlau ar gyfer yr Heddlu, ochr yn ochr â Rhybuddiadau Dargyfeiriol a Chymunedol. Os penderfynir rhoi rhybuddiad, dylid gwneud hynny yng nghyd-destun y fframwaith ehangach ac ystyriaeth i'r ffordd orau y bydd personau awdurdodedig neu awdurdodau erlyn yn gallu sicrhau'r canlyniad a ddymunir, gan ystyried barn y dioddefwr ac anghenion y troseddwr yr un pryd.

## Rhan 3: Esboniad o'r rhybuddiadau

3.1 Mae gwahaniaethau sylweddol rhwng Rhybuddiadau Dargyfeiriol a Chymunedol o ran eu defnyddio a'u gorfodi, ac mae'r rhain wedi'u hamlinellu isod. Er mwyn bod yn glir, mae cyfeiriadau at y Datrysiad Cymunedol wedi'u cynnwys:

| | **Datrysiad Cymunedol** | **Rhybuddiad Cymunedol** | **Rhybuddiad Dargyfeiriol** |
|---|---|---|---|
| **Defnyddio** | Dim cyfyngiadau statudol ar y defnydd ohono.<br><br>Mae'r defnydd ohono yn unol â pholisi a chanllawiau Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu. | Gellir ei ddefnyddio am unrhyw drosedd – heblaw trosedd eithriedig.<br><br>(Mae'r troseddau eithriedig yn rhai ditiadwy yn unig ac yn droseddau neillffordd neu ddiannod yn unig fel a bennwyd mewn rheoliadau – gweler Rhan 5). | Gellir ei ddefnyddio am unrhyw drosedd.<br><br>Yn achos troseddau ditiadwy yn unig – dim ond mewn amgylchiadau eithriadol *a hefyd* ar ôl cael cydsyniad gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus. |
| **Gorfodi** | Ni ellir cymryd camau gorfodi am beidio â chydymffurfio â Datrysiad Cymunedol.<br><br>Dim pŵer arestio neu gadw yn y ddalfa yn dilyn peidio â chydymffurfio. | Ni ellir erlyn am beidio â chydymffurfio.<br><br>Gall defnyddiwr awdurdodedig ddad-wneud yr amod ac atodi cosb ariannol (os nad oedd hyn yn amod yn wreiddiol).<br><br>Os bydd y gosb hon yn aros heb ei thalu, gellir ei chofrestru i'w gorfodi fel dirwy llys.<br><br>Dim pŵer arestio neu gadw yn y ddalfa yn dilyn peidio â chydymffurfio. | Os na chydymffurfir ag amodau, gall hynny arwain at erlyn y troseddwr am y drosedd wreiddiol.<br><br>Pŵer arestio a chadw yn y ddalfa yn dilyn peidio â chydymffurfio. |

**Mae cymhariaeth bellach o'r datrysiadau yn Atodiad A**

3.2 Y gwahaniaeth allweddol rhwng y Rhybuddiad Dargyfeiriol a'r Rhybuddiad Cymunedol yw'r canlyniad am dorri amodau. Wrth ddewis rhwng Rhybuddiad Dargyfeiriol neu Rybuddiad Cymunedol, mae'n bwysig bod y person awdurdodedig neu'r awdurdod erlyn yn ystyried ffactorau budd y cyhoedd a hefyd barn y dioddefwr. Mewn amgylchiadau lle gwelir yn glir nad oes budd i'r cyhoedd mewn erlyn, gellir ffafrio'r Rhybuddiad Cymunedol.

3.3 Os yw barn y dioddefwr ar gael ac os yw'n gymwys, dylid ei hystyried hefyd o ran a fyddai o blaid erlyn os bydd diffyg cydymffurfio. Dylid egluro i'r dioddefwr nad yw torri Rhybuddiad Cymunedol yn gallu arwain at erlyn.

3.4 Dylai'r Heddlu ystyried a fyddai defnyddio Datrysiad Cymunedol yn ffordd well i ddelio ag amgylchiadau trosedd lai na rhoi Rhybuddiad Dargyfeiriol neu Gymunedol. Wrth benderfynu ar hyn, gall yr Heddlu ystyried y cwestiynau canlynol:

a) A fyddai Datrysiad Cymunedol yn delio'n ddigonol â'r ymddygiad?

b) A yw er budd y cyhoedd bod y mater yn cael ei orfodi fel hyn?

c) Os yw'n gymwys, a yw'n bodloni anghenion a dymuniadau'r dioddefwr?

d) Os na fydd yr un sy'n ei dderbyn yn cydymffurfio ag unrhyw un neu'r cyfan o'r amodau, a yw'n dderbyniol na ellid cymryd camau gorfodadwy?

3.5 Os mai cadarnhaol yw'r ateb i'r cwestiynau hyn, a bod yr holl ofynion eraill ar gyfer Datrysiad Cymunedol wedi'u bodloni, fel y maent wedi'u disgrifio yng nghanllawiau Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, yna gellir ffafrio Datrysiad Cymunedol, yn enwedig mewn achosion o droseddu tro cyntaf neu achosion y gellir eu datrys yn y fan a'r lle.

## Rhan 4: Cymhwystra

### Y pum gofyniad

4.1 Mae adrannau 99 a 108 o'r Ddeddf yn pennu'r pum gofyniad y mae'n rhaid eu bodloni cyn gallu rhoi Rhybuddiad Dargyfeiriol neu Gymunedol. Mae pob gofyniad ar wahân a rhaid bodloni pob un ohonynt cyn gallu gweinyddu unrhyw rybuddiad.

1. **Bod y person awdurdodedig neu awdurdod erlyn yn penderfynu bod tystiolaeth ddigonol i gyhuddo’r troseddwr o’r drosedd, a bod budd y cyhoedd yn cael ei sicrhau’n well drwy Rybuddiad Dargyfeiriol neu Gymunedol yn hytrach nag erlyn mewn perthynas â’r drosedd.**

2. **Bod y troseddwr y cyfaddef cyflawni’r drosedd.**

3. **Bod y troseddwr yn cydsynio i gymryd y rhybuddiad.**

4. **Bod rhaid i’r person awdurdodedig egluro effaith y rhybuddiad a rhybuddio’r troseddwr y byddai methu â chydymffurfio ag unrhyw un o’r amodau yn gallu arwain, yn achos Rhybuddiad Dargyfeiriol, at erlyn am y drosedd wreiddiol neu, yn achos Rhybuddiad Cymunedol, at osod cosb ariannol wedyn.**

5. **Bod y troseddwr yn llofnodi dogfen yn cynnwys manylion y drosedd, addefiad bod y troseddwr wedi cyflawni’r drosedd, cydsyniad i gymryd rhybuddiad a manylion yr amodau a atodwyd.**

**Ad-droseddu**

4.2 Dylid gwneud penderfyniadau ym mhob achos ar wahân ynghylch defnydd mynych o rybuddiadau ar gyfer yr un troseddwr, gan ystyried nifer o ffactorau, yn hytrach na chyfnod penodol. Felly rhaid i benderfynwyr wneud cofnod llawn o’r cyfiawnhad a’r penderfyniad mewn achosion o’r fath er mwyn sicrhau nad oes camddefnydd o rybuddiadau ailadroddol. Mae’n neilltuol o bwysig bod y cofnod hwn ar gael i baneli craffu (gweler Rhan 11 isod).

4.3 Nid yw euogfarnau, rhybuddiadau neu DTALlau eraill blaenorol mewn perthynas â throseddau cynharach yn golygu na ellir rhoi Rhybuddiad Dargyfeiriol neu Gymunedol i droseddwr mewn perthynas â’r drosedd bresennol. Er hynny, mae’n bwysig bod y penderfynwr yn ystyried a yw o’r farn bod digon o amser wedi mynd heibio ers rhoi rhybuddiad blaenorol am yr un drosedd neu drosedd debyg, er enghraifft o fewn y 12-24 mis blaenorol.

4.4 Gall fod yn briodol rhoi rhybuddiad ailadroddol lle mae un neu ragor o’r canlynol yn gymwys:

a) Nad yw’r drosedd bresennol yn waeth o ran difrifoldeb/niwed a’i bod un ai ar yr un lefel neu lefel is.

b) Bod amgylchiadau’r drosedd yn wahanol i’r un ddiwethaf.

c) Bod y troseddwr wedi cydymffurfio ag amodau o’r blaen, hyd yn oed os nad oedd yr amodau’n effeithiol o ran sicrhau ymatal.

d) Bod digon o amser wedi mynd heibio yn dilyn rhybuddiad neu euogfarn flaenorol, am yr un math o drosedd neu un debyg, i awgrymu ei fod wedi cael effaith ataliol yn y cyfamser.

e) Ei bod yn debygol mai rhoi Rhybuddiad Dargyfeiriol neu Gymunedol fydd y canlyniad gorau i’r dioddefwr ac i’r troseddwr. Rhaid gofyn barn y dioddefwr yn yr amgylchiadau hyn.

f) Y byddai newid nifer neu fath yr amodau a atodir yn gallu sicrhau ymatal. Gall hyn fod yn berthnasol iawn lle nad oedd ymyriadau neu wasanaethau penodol ar gael y tro diwethaf, neu lle defnyddiwyd DTALl[1] etifeddol heb osod amodau.

g) Bod budd i’r cyhoedd mewn rhoi rhybuddiad pellach. Byddai ffactorau budd y cyhoedd yn gallu awgrymu bod rhoi Rhybuddiad Dargyfeiriol yn ffordd fwy priodol o dynhau ar ôl rhoi Rhybuddiad Cymunedol, yn enwedig mewn achosion lle mae cyfiawnder troseddol yn cael ei sicrhau’n well drwy allu erlyn am dorri Rhybuddiad Dargyfeiriol.

h) Bod amodau adsefydlu neu wneud iawn wedi’u defnyddio a’u bod yn aflwyddiannus neu wedi’u dilyn i’r pen, ac y byddai cosb ariannol lem yn gall bod yn fwy addas.

4.5 Gall rhybuddiad ailadroddol fod yn amhriodol lle:

a) Bod y drosedd yn rhan o batrwm o droseddu tymor hir a/neu fod y difrifoldeb neu’r niwed wedi cynyddu.

b) Nad oedd DTALl blaenorol wedi cael effaith ar yr ymddygiad sy’n arwain at droseddu. Gall y penderfynwr fod o’r farn y byddai datrysiad o fath gwahanol, fel erlyn, yn ddewis mwy priodol i ddelio â’r drosedd.

c) Bod y troseddwr wedi methu â chydymffurfio ag amodau’r rhybuddiad blaenorol. Er hynny, dylid ystyried a oedd amgylchiadau lliniarol rhesymol mewn diffyg cydymffurfio blaenorol, yn ogystal ag ystyried gosod amodau gwahanol fel a nodwyd yn Rhan 4.4(f).

[1] Rhybuddiad Syml Oedolyn, Rhybudd Canabis/Khat, Hysbysiad Cosb am Anhrefn

# Rhan 5: Penderfynu

**Troseddau ditiadwy yn unig**

5.1 Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gellir rhoi Rhybuddiad Dargyfeiriol am drosedd dditiadwy yn unig, ar ôl cael caniatâd gan benderfynwr ar radd Arolygydd o leiaf, ac ar ôl cael cydsyniad y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus (DPP), a gaiff ei ddirprwyo i benderfynwr y CPS. Dylai'r penderfynwr asesu pa amgylchiadau eithriadol sy'n bodoli cyn atgyfeirio i'r CPS. Ni ellir rhoi Rhybuddiadau Cymunedol am droseddau ditiadwy yn unig o dan unrhyw amgylchiadau.

**Troseddau diannod yn unig a throseddau neillffordd**

5.2 Gellir rhoi Rhybuddiad Dargyfeiriol am unrhyw drosedd ddiannod yn unig neu drosedd neillffordd.

5.3 Gellir rhoi Rhybuddiad Cymunedol am unrhyw drosedd ddiannod yn unig neu drosedd neillffordd heblaw trosedd eithriedig. Y diffiniad o droseddau eithriedig yw unrhyw drosedd dditiadwy yn unig a'r troseddau neillffordd penodol sydd wedi'u rhestru yn Atodiad C.

5.4 Dylai penderfynwyr sicrhau eu bod yn darllen unrhyw ganllawiau a ddyroddwyd gan y DPP wrth roi rhybuddiad am drosedd neillffordd a fydd yn cael ei thrafod fel arfer yn Llys y Goron neu sy'n debygol o alw am roi Gorchymyn Cymunedol neu ddedfryd o garchar.

**Troseddau eithriedig**

5.5 Y diffiniad o drosedd eithriedig yw trosedd dditiadwy yn unig, neu drosedd neillffordd neu ddiannod yn unig a bennwyd.

5.6 Gellir rhoi Rhybuddiadau Dargyfeiriol am droseddau eithriedig ond dim ond ar ôl cael caniatâd gan benderfynwr ar radd Arolygydd (neu radd gyfatebol) o leiaf, a fydd yn gorfod cofnodi ei resymau.

5.7 Rhaid peidio â rhoi Rhybuddiad Cymunedol i droseddwr am drosedd eithriedig o dan unrhyw amgylchiadau. Mae hyn yn cynnwys amgylchiadau eithriadol, na ellir eu cymhwyso at Rybuddiadau Cymunedol, bid a fo am hynafedd y person awdurdodedig sydd yn rhoi rhybuddiad.

5.8 Mae rhestr lawn o droseddau eithriedig penodedig yn Atodiad C ond gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

a) Troseddau arf ymosodol ac eitem lafnog

b) Cario arf tanio mewn lle cyhoeddus

c) Creulondeb tuag at blant

d) Troseddau rhywiol yn erbyn plant (yn cynnwys y rheini sy'n ymwneud â phuteindra a phornograffi plant)

e) Troseddau masnachu pobl ar gyfer rhyw

f) Delweddau anweddus a phornograffig o blant

  a) Mewnforio, allforio, cynhyrchu a chyflenwi cyffuriau Dosbarth A neu feddu arnynt gyda'r bwriad o'u cyflenwi i rywun arall

**Troseddau cam-drin domestig a throseddau casineb**
5.9 Mae troseddau cam-drin domestig a throseddau casineb yn faterion sydd o bwys mawr i'r cyhoedd. Rhaid i ni ymateb i droseddau o'r fath mewn ffordd gadarn, gan ddilyn polisi seiliedig ar dystiolaeth, a chan ddal diogelwch a budd pennaf y dioddefwr mewn cof.

**Cam-drin domestig**
5.10 Mae'r diffiniad statudol o gam-drin domestig wedi'i bennu yn Rhan 1 o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021. Rhaid i benderfynwyr ymgyfarwyddo â'r diffiniad hwn ond, a siarad yn gyffredinol, mae'n cwmpasu'r ymddygiad camdriniol gan un person tuag at berson arall lle mae'r ddau yn 16 oed neu'n hŷn, a lle mae cysylltiad personol rhwng y ddau[2], a all gynnwys:

a) Cam-drin corfforol neu rywiol

b) Ymddygiad treisgar neu fygythiol

c) Ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol

d) Cam-drin economaidd

e) Cam-drin seicolegol, emosiynol neu gam-drin o fath arall

5.11 Yn dilyn gwerthusiad o raglenni heddlu ar gam-drin domestig a gyflawnwyd mewn nifer o heddluoedd, mae'r holl heddluoedd bellach yn gallu defnyddio Rhybuddiadau Dargyfeiriol mewn perthynas â throseddau cam-drin domestig lle mae risg safonol (mewn perthnasoedd personol a rhai sydd heb fod yn bersonol), yn amodol ar yr egwyddorion a gytunwyd â'r DPP. Nid oes angen i'r Heddlu wneud cais i'r CPS am ollyngiad i wneud hyn. Mae'r egwyddorion hyn yn ychwanegol at yr angen i gwrdd â'r gofynion ar gyfer rhybuddiad o dan y Ddeddf.

5.12 Mae'r egwyddorion, sy'n gymwys i'r holl heddluoedd yng Nghymru a Lloegr gan gynnwys y rhaglenni peilot presennol ar gam-drin domestig, wedi'u dangos yn Atodiad C i'r

[2] Mae 'cysylltiad personol' wedi'i ddiffinio yn a.2(1) o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021. Cafwyd ar-lein yn https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2021/17/section/2/enacted.

Cod hwn. Mae’r egwyddorion yn pennu bod yr amodau a osodwyd fel ymyriadau ar gyfer cyflawnwyr yn gorfod cynnwys y prif elfennau adsefydlu a ddefnyddiwyd yn Project CARA (Cautioning and Relationship Abuse), sef egwyddorion a phrosesau cyf-weld ysgogiadol, cefnogaeth gan gymheiriaid, herio gan gymheiriaid, canolbwyntio ar ddioddefwyr, canolbwyntio ar droseddwyr, meithrin cydberthynas, peidio â chywilyddio, gwrando, a chwestiynu.

5.13 Ar gyfer achosion nad ydynt yn cwrdd â’r meini prawf ac egwyddorion a nodwyd yn Atodiad C i’r cod hwn, gall penderfynwyr ailgyfeirio achosion i’r CPS i’w hystyried ar sail eithriadol.

5.14 Ni ellir defnyddio Rhybuddiadau Cymunedol mewn perthynas â throseddau sy’n gysylltiedig â cham-drin domestig sydd wedi’u diffinio yn Rhan 1 o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021.

**Troseddau casineb**

5.15 Gellir rhoi Rhybuddiad Dargyfeiriol neu Gymunedol mewn achos o drosedd gasineb, ond dim ond ar ôl cael awdurdodiad gan y CPS. Gall yr Heddlu ddefnyddio Datrysiadau Cymunedol lle mae polisi Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu yn caniatáu hynny.

**Y Prawf Cod Llawn**

5.16 Yn unol â’r Prawf Cod Llawn sydd wedi’i amlinellu yn y Cod i Erlynwyr y Goron, cyn gallu rhoi Rhybuddiad Dargyfeiriol neu Gymunedol, rhaid bod tystiolaeth ddigonol ar gael i gynnig rhagolwg rhesymol o gael euogfarn. Dylai penderfynwyr ofalu eu bod yn cyfeirio at y Cod ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig a ddyroddwyd gan y DPP.

**Y Prawf Cod Llawn – cam y dystiolaeth**

5.17 Rhaid bod tystiolaeth ddigonol ar gael i gynnig rhagolwg rhesymol o gael euogfarn. Bydd y canfyddiad bod rhagolwg rhesymol o gael euogfarn yn cael ei seilio ar y cymhwyso ar y Prawf Cod Llawn gan yr erlynydd i wneud asesiad gwrthrychol o’r dystiolaeth, yn cynnwys effaith unrhyw amddiffyniad ac unrhyw wybodaeth arall y mae’r un a ddrwgdybir wedi’i chyflwyno neu y gallai ddibynnu arni. Ymhlith y ffactorau eraill a ystyrir yn yr asesiad hwn y mae:

a) Bod yr un a ddrwgdybir wedi gwneud addefiad clir a dibynadwy o’r drosedd ac nad yw wedi dweud dim y gellid ei ddefnyddio fel amddiffyniad, neu

b) Nad yw’r un a ddrwgdybir wedi gwneud addefiad ond nad yw wedi gwadu’r drosedd na dangos fel arall y bydd yn cael ei herio ac y gellir dangos bod y drosedd wedi’i chyflawni a phwy yw’r un a ddrwgdybir ar sail tystiolaeth ddibynadwy, neu y gellir

gweld yr un a ddrwgdybir yn glir yn cyflawni'r drosedd ar recordiad gweledol o ansawdd da[3].

5.18 Wrth benderfynu a oes tystiolaeth ddigonol i gynnig rhagolwg rhesymol o gael euogfarn[4], dylai'r penderfynwr ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael, yn cynnwys unrhyw addefiad a wnaed gan yr un a ddrwgdybir. Rhaid i'r penderfynwr beidio â chynnig rhybuddiad er mwyn sicrhau addefiad a fyddai wedyn yn gallu cynnig tystiolaeth ddigonol i gwrdd â cham y dystiolaeth yn y Prawf Cod Llawn.

5.19 Gall amgylchiadau godi lle mae'r un a ddrwgdybir heb wneud addefiad ond heb wadu'r drosedd neu ddangos fel arall y bydd yn cael ei herio, ac y gellir dangos bod y drosedd wedi'i chyflawni a phwy yw'r un a ddrwgdybir ar sail tystiolaeth ddibynadwy, neu y gellir gweld yr un a ddrwgdybir yn glir yn cyflawni'r drosedd ar recordiad gweledol o ansawdd da. Er y gall hyn fod yn ddigon i gwrdd â cham y dystiolaeth yn y Prawf Cod Llawn, mae hyn ar wahân i'r gofyniad am addefiad o'r drosedd/troseddau o dan y pum gofyniad yn y Ddeddf (adrannau 99 a 108).

**Y Prawf Cod Llawn – cam budd y cyhoedd**

5.20 Lle mae tystiolaeth ddigonol i gynnig rhagolwg rhesymol o gael euogfarn, rhaid i'r penderfynwr fynd yn ei flaen i ystyried a oes budd i'r cyhoedd mewn cynnig rhybuddiad mewn perthynas â'r drosedd.

5.21 Rhaid i'r penderfynwr asesu difrifoldeb yr achos er mwyn sicrhau bod rhybuddiad yn darparu ymateb priodol a chymesur i'r ymddygiad troseddol ac y gellir sicrhau cyfiawnder.

5.22 Rhaid i'r penderfynwr gael ei fodloni mai'r ffordd orau i sicrhau budd y cyhoedd yw i'r troseddwr gydymffurfio ag amodau addas sydd â'r bwriad o wneud iawn, adsefydlu neu gosbi (cosb ariannol), gan gymryd i ystyriaeth fuddiannau'r dioddefwr, y gymuned a/neu anghenion y troseddwr. Yn achos rhybuddiadau i Droseddwyr sy'n Wladolion Tramor, dylai'r penderfynwr ofalu bod modd sicrhau budd y cyhoedd drwy eu symud o'r DU a sicrhau na fyddant yn dychwelyd am gyfnod penodedig. Bydd hyn yn gymwys i'r defnydd o Rybuddiadau Dargyfeiriol yn unig sydd ag amodau wedi'u hatodi ar gyfer troseddwyr o wledydd tramor yn unol ag adran 103 o'r Ddeddf.

5.23 Ar adeg gwneud yr asesiad hwn, rhaid i'r penderfynwr gael ei fodloni hefyd, mewn achosion lle mae Rhybuddiad Dargyfeiriol o dan ystyriaeth, y bydd angen parhau ag

[3] Wrth gymhwyso cam y dystiolaeth yn y Cod Prawf Llawn, ni fydd hynny'n negyddu'r gofyniad am addefiad llawn fel un o'r pum gofyniad a nodwyd yn Rhan 4 o'r Cod Ymarfer hwn.

[4] Mae'r gofyniad hwn yn gymwys hefyd i'r Rhybuddiad Cymunedol, er na ellir erlyn am ddiffyg cydymffurfiaeth.

erlyniad, ac y gallai fynd yn ei flaen, os gwrthodir y cynnig o Rybuddiad Dargyfeiriol, neu os na fydd y troseddwr yn cwblhau'r amodau.

5.24 Yn y rhan fwyaf o achosion, ni ddylid rhoi rhybuddiad lle byddai llys yn debygol, ar ôl cael euogfarn, o roi Gorchymyn Cymunedol lefel uwch neu ddedfryd o garchar ar unwaith. Anogir penderfynwyr i gyfeirio at y canllawiau diweddaraf ar ddedfrydu wrth wneud yr asesiad hwn.

**Addefiadau**

5.25 Cyn gweinyddu Rhybuddiad Dargyfeiriol neu Gymunedol, dylai'r person awdurdodedig sicrhau y caiff y troseddwr gyfle i gael cyngor cyfreithiol annibynnol am ddim (y gellir ei ddarparu dros y ffôn ar gyfer rhai troseddau). Cyflawnir hyn dros unigolion sydd wedi dod i orsaf yr heddlu neu fan dyroddi arall o'u gwirfodd, yn ogystal â'r rheini sydd wedi'u cadw yn y ddalfa.

5.26 Rhaid i'r troseddwr gyfaddef y drosedd er mwyn bod yn gymwys i gael Rhybuddiad Dargyfeiriol neu Gymunedol yn unol â'r pum gofyniad a nodwyd yn adrannau 99(2)(b) a 108 (2)(b) o'r Ddeddf a Rhan 4 o'r Cod hwn. Ni ellir rhoi Rhybuddiad Dargyfeiriol neu Gymunedol i droseddwr nad yw'n gwneud addefiad clir a diamwys iddo gyflawni'r drosedd. Gall addefiad gynnwys troseddwyr sy'n datgan nad ydynt yn cofio'r drosedd ond nad ydynt yn herio achos yr erlyniad yn eu herbyn ac sy'n derbyn eu bod yn gyfrifol. Mae addefiad o'r drosedd yn gam diogelu cyfreithiol pwysig i sicrhau tegwch â'r troseddwr ac mae'n gyson â'r gyfraith achosion sefydledig ar gyfer rhybuddiadau .

5.27 Mae'n bosibl na fydd yr un a ddrwgdybir yn deall y gofyniad i gyfaddef ei fod yn euog yn ystod yr ymchwiliad er mwyn cael rhybuddiad, yn enwedig os nad oes ganddo gynrychiolaeth gyfreithiol. Gall hyn beri i'r un a ddrwgdybir gredu y gall ei addefiad olygu y ceir canlyniad llymach fel erlyn. Ni fydd un a ddrwgdybir sy'n rhoi cyfweliad 'dim sylw' yn gymwys i gael Rhybuddiad Dargyfeiriol neu Gymunedol.

5.28 Er mwyn ymateb i hyn, mae'n bosibl y bydd heddluoedd am baratoi nodyn cyffredinol yn nodi'r ddeddfwriaeth berthnasol i'w ddarparu i'r un a ddrwgdybir a/neu ei gynrychiolydd cyfreithiol neu oedolyn priodol, sydd yn egluro pam y mae angen gwneud addefiad er mwyn cael rhybuddiad a chael ei ddargyfeirio oddi wrth erlyn. Rhaid gofalu na fydd y geiriad yn un y gellid ei ddehongli fel anogaeth neu warant o ganlyniad penodol. Dylai'r nodyn egluro'r sefyllfa hon mewn termau cyffredinol a rhaid iddo gael ei glirio i'w ddefnyddio gan gyfreithiwr yr heddlu. Rhaid cofnodi unrhyw drafodaeth a geir ynghylch addefiad â'r un a ddrwgdybir mewn perthynas ag achos penodol.

5.29 O dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE), nid oes angen gwneud yr addefiad o euogrwydd yn ystod cyfweliad ffurfiol. Er hynny, rhaid i'r dull o gael a chofnodi'r addefiad fod yn un sy'n gyson â PACE. Mae PACE yn darparu'r opsiynau canlynol:

a) Addefiad a wneir mewn ymateb i gwestiynau a ofynnir mewn cyfweliad ffurfiol a gaiff ei gynnal a'i gofnodi yn unol â'r darpariaethau perthnasol yng Nghodau PACE, boed hynny yng ngorsaf yr heddlu neu mewn man arall.

b) Addefiad digymell a wneir heb anogaeth neu wahoddiad i wneud sylw ar unrhyw adeg, y tu allan i gyd-destun cyfweliad. Rhaid gwneud cofnod ysgrifenedig a gwahodd yr un a ddrwgdybir i lofnodi'r cofnod i gadarnhau ei fod yn gywir yn unol â Chodau PACE. Os yw'r un a ddrwgdybir wedi cael ei arestio, rhaid gwneud y cofnod yn llyfr nodiadau'r swyddog neu gan Swyddog y Ddalfa neu swyddog adolygu yng nghofnod dalfa'r troseddwr. Os cynhelir cyfweliad ffurfiol ar ôl cael addefiad digymell, rhaid codi'r addefiad gyda'r un a ddrwgdybir ar ddechrau'r cyfweliad a gofyn i'r un a ddrwgdybir gadarnhau neu wadu'r hyn a ddywedwyd.

c) Datganiad ysgrifenedig ffurfiol a wneir ar ôl cael rhybudd yr heddlu a'i gofnodi yn unol â Chodau PACE.

5.30 Mae Codau C, E ac F PACE yn trafod ac yn rheoleiddio'r dull o gynnal a chofnodi cyfweliadau (holi ar ôl cael rhybudd yr Heddlu) â rhai a ddrwgdybir. Er nad yw'r term Camera Fideo a Wisgir ar y Corff yn cael ei ddefnyddio yng Nghodau PACE, mae Cod E yn disgrifio'r gofynion sylfaenol ar gyfer dyfeisiau recordio sy'n gyson â PACE.

5.31 Nid yw'r Ddeddf yn galw am wneud addefiad gan y troseddwr cyn i'r penderfynwr benderfynu a fydd Rhybuddiad Dargyfeiriol neu Gymunedol yn briodol. Er hynny, yn unol â'r pum gofyniad, bydd yr un a ddrwgdybir yn gorfod gwneud addefiad iddo gyflawni'r drosedd cyn rhoi'r rhybuddiad ac, ar adeg rhoi'r rhybuddiad, llofnodi dogfen yn cyfaddef y drosedd. Nid yw llofnodi'r ddogfen ar ei ben ei hun yn bodloni'r gofynion ar gyfer rhoi rhybuddiad a rhaid bodloni pob un o'r pum gofyniad.

5.32 Ni ddylid cymysgu rhwng y gofyniad am wneud addefiad a'r gofyniad ar wahân am dystiolaeth ddigonol i gyhuddo o dan y Prawf Cod Llawn yn y Cod i Erlynwyr y Goron neu Ganllawiau'r Cyfarwyddwr (Cyhuddo).

5.33 Dylai penderfynwyr fod yn neilltuol o ofalus ynghylch derbyn addefiad mewn achosion lle mae'r un a ddrwgdybir yn cael ei drin fel oedolyn agored i niwed a bod unrhyw amheuaeth ynghylch ei gyflwr meddwl neu alluedd i wneud addefiad, derbyn rhybuddiad, neu ddeall y canlyniadau i dderbyn rhybuddiad. Rhaid rhoi mesurau diogelu ar waith i ddarparu asesiad priodol o'r un a ddrwgdybir i'r penderfynwr gyfeirio ato wrth benderfynu a fydd yn rhoi rhybuddiad.

5.34 Lle mae'r asesiad hwn o anghenion yn dangos bod yr un a ddrwgdybir yn agored i niwed neu fod ei alluedd i wneud addefiad yn galw am fesurau diogelu pellach, rhaid i oedolyn priodol fod yn bresennol ar gyfer unrhyw gyfweliad, trafodaeth am oblygiadau'r rhybuddiad, a rhyddhau'r un a drwgdybir.

**Ystyried dioddefwyr**

5.35 Wrth benderfynu pa amodau i'w hatodi i rybuddiad, rhaid i'r penderfynwr wneud ymdrechion rhesymol, neu sicrhau bod ymdrechion rhesymol yn cael neu wedi cael eu gwneud, i ystyried barn unrhyw un sy'n ddioddefwr o ganlyniad i'r drosedd. Dylid ystyried y farn hon wrth asesu'r holl ffactorau budd y cyhoedd eraill yn yr achos.

5.36 Bydd barn unrhyw un sy'n ddioddefwr o ganlyniad i'r drosedd yn cynnwys, yn benodol, barn ynghylch a ddylai'r troseddwr gyflawni unrhyw gamau sydd wedi'u rhestru yn y Ddogfen Rhwymedi Cymunedol. Lle rhoddir rhybuddiad gan gorff heddlu lleol sy'n dod o dan ddeddfwriaeth berthnasol[5], dylai penderfynwyr ymgynefino â diffiniad a chwmpas y Ddogfen Rhwymedi Cymunedol.

5.37 Lle mae'r dioddefwr neu'r holl ddioddefwyr o'r farn y dylai'r troseddwr gyflawni cam penodol a restrwyd yn y Ddogfen Rhwymedi Cymunedol, rhaid i'r person awdurdodedig neu awdurdod erlyn atodi hynny fel amod oni bai fod y person awdurdodedig neu awdurdod erlyn yn barnu un ai a) nad yw'r cam gweithredu yn un y gellir ei atodi fel amod i Rybuddiad Dargyfeiriol, neu Rybuddiad Cymunedol, neu b) y byddai'n amhriodol gwneud hynny.

5.38 Mae'r gofyniad i gael barn dioddefwyr yn sicrhau cydymffurfio hefyd ag adrannau 6.6 – 6.8 o'r Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr (2020) (a geir ar-lein yn https://www.gov.uk/government/publications/the-code-of-practice-for-victims-of-crime) sy'n datgan '*Where the police or the Crown Prosecution Service are considering an out of court disposal you have the **right** to be asked for your views and to have these views taken into account when a decision is made*'.

5.39 Mae'r Heddlu ac awdurdodau erlyn yn gorfod sicrhau bod y farn hon wedi'i chofnodi mewn unrhyw gofnod o benderfyniadau.

5.40 Er hynny, unwaith y bydd y farn hon wedi'i hystyried gan y penderfynwr, gellir rhoi rhybuddiad yn groes i'r farn a fynegwyd gan ddioddefwr neu ddioddefwyr trosedd os yw'r penderfynwr o'r farn bod hynny'n briodol o ystyried amgylchiadau'r drosedd.

**Penderfynu ar amodau**

5.41 Penderfynir yr amodau (sydd wedi'u hamlinellu yn Rhan 6) i'w hatodi i Rybuddiad Dargyfeiriol neu Gymunedol gan:

a) Y person awdurdodedig *neu*

b) Awdurdod erlyn (mewn achosion lle gwnaed y penderfyniad i roi rhybuddiad gan yr awdurdod hwnnw).

[5] Rhan 6 (adran 101), https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/12/contents.

**Awdurdodi rhybuddiad**
5.42 Rhaid i'r penderfyniad i awdurdodi rhoi rhybuddiad gael ei wneud gan swyddog ar radd Rhingyll (neu radd gyfatebol yn staff yr Heddlu). Lle rhoddir rhybuddiad gan Gwnstabl yn y lle cyntaf, rhaid i'r penderfyniad i rybuddio gael ei adolygu gan Ringyll neu swyddog cyfatebol cyn cynnig y rhybuddiad i'r troseddwr. Gweler y canllawiau pellach yn Rhan 9.

**Cofnodi penderfyniadau**
5.43 Rhaid i'r penderfynwr sicrhau bod cofnod ysgrifenedig llawn wedi'i wneud o'i benderfyniad i roi rhybuddiad, yn cynnwys unrhyw ffactorau lliniarol neu waethygol. Yn ogystal â hyn, rhaid cofnodi cydymffurfiaeth ag unrhyw ran berthnasol o'r Cod neu ganllawiau'r DPP mewn fformat y gellir ei weld gan oruchwylwyr, rheolwyr, paneli craffu neu arolygiaethau fel y bo'n gymwys.

**Rhoi rhybuddiad yn lle un arall**
5.44 Gall amgylchiadau godi lle bydd y penderfynwr yn penderfynu y dylid rhoi Rhybuddiad Dargyfeiriol i'r troseddwr, ond bod y troseddwr yn nodi na fyddai ond yn derbyn y Rhybuddiad Cymunedol haen isaf, neu hyd yn oed Datrysiad Cymunedol.

5.45 Dylai penderfynwyr fynd yn ôl at y prawf budd y cyhoedd ac ystyried a fyddai rhoi datrysiad haen isaf yn ymateb priodol o hyd ac, os oes angen, ymgynghori ymhellach â'r dioddefwr. Os bernir bod hyn yn amhriodol, mae'n bosibl na fydd dewis gan y penderfynwr ond mynd ymlaen i erlyn.

5.46 Bydd yn bosibl na ellir rhoi Rhybuddiad Cymunedol fel datrysiad gwahanol oherwydd y troseddau eithriedig yn y Rhybuddiad Cymunedol.

**Penderfynu a ddylid rhoi rhybuddiad lle mae troseddwr eisoes wedi cael ei gyhuddo**
5.47 Lle mae troseddwr wedi'i gyhuddo o drosedd, gall yr erlynydd perthnasol benderfynu, wrth adolygu'r achos, y byddai datrysiad o dan y fframwaith DTALIau yn fwy priodol. Os felly, gall yr erlynydd perthnasol gyfarwyddo'r person awdurdodedig i gynnig DTALI i'r troseddwr. Atelir yr erlyniad nes cael penderfyniad gan y troseddwr ynghylch a fydd yn derbyn DTALI. Os na fydd y troseddwr yn ei dderbyn, yna gall yr erlynydd benderfynu cymryd camau i erlyn.

5.48 Os bydd y penderfyniad i gynnig DTALI yn arwain at gynnig rhybuddiad i'r troseddwr, rhaid gwneud hyn yn unol â'r Cod hwn ac unrhyw ganllawiau a ddyroddwyd gan y DPP neu awdurdod erlyn.

# Rhan 6: Amodau

6.1 Rhaid atodi un neu ragor o amodau i Rybuddiadau Dargyfeiriol a Chymunedol, gyda'r bwriad o adsefydlu a/neu wneud iawn. Gellir gosod cosb ariannol fel yr unig amod cosbol sydd ar gael.

6.2 Mae'r sylfaen dystiolaeth am effeithiolrwydd amodau yn datblygu ar lefel genedlaethol a lleol, yn cynnwys tystiolaeth am y mathau o amodau a all leihau ad-droseddu ac adsefydlu dioddefwyr.

6.3 Lle ceir dioddefwr o ganlyniad i drosedd, dylai defnyddwyr awdurdodedig ac awdurdodau erlyn gymryd ei farn i ystyriaeth fel a nodir yn adran 100(3) a 109(3) o'r Ddeddf.

6.4 Dylent hefyd gymryd anghenion a galluedd y troseddwr i ystyriaeth. Argymhellir cynnal asesiad o anghenion i sicrhau bod amodau adsefydlu yn berthnasol i'r troseddwr a bod dull datrys problemau yn cael ei ddefnyddio i bennu amodau addas. Lle mae'r asesiad hwn o anghenion yn dangos bod angen mesurau pellach i ddiogelu'r troseddwr, rhaid ymgynghori ag oedolyn priodol ar yr amodau y ceisir eu gosod er mwyn sicrhau eu bod yn briodol, cymesur a chyraeddadwy, yn unol â 6.20. Dylai'r ymgynghori hwn gael ei gofnodi hefyd yn y sail resymegol dros yr amodau a atodir i'r rhybuddiad yn y pen draw.

**Amodau adsefydlu a gwneud iawn**

6.5 Mae'r amodau y gellir eu hatodi i Rybuddiad Dargyfeiriol neu Gymunedol gyda'r amcan o adsefydlu'r troseddwr, neu sicrhau ei fod yn gwneud iawn, yn cynnwys:

a) Amod gwaith di-dâl – Cyflawni gwaith penodedig am gyfnod o 20 awr ar y mwyaf (Rhybuddiad Dargyfeiriol) neu 10 awr ar y mwyaf (Rhybuddiad Cymunedol).

b) Amod presenoldeb – Ei gwneud yn ofynnol i'r troseddwr fynd i le penodedig i ddiben penodedig (e.e., mynychu gwasanaeth cyffuriau neu alcohol), ac am nifer oriau penodedig. Ni chaiff hyn fod yn fwy nag 20 awr (Rhybuddiad Dargyfeiriol) neu 10 awr (Rhybuddiad Cymunedol) lle mai unig amcan yr amod yw gwneud iawn am y drosedd gan y troseddwr.

   Lle mae amod presenoldeb yn ei gwneud yn ofynnol i'r troseddwr fynd i rywle er mwyn cymryd rhan mewn unrhyw addysg neu hyfforddiant, neu gael unrhyw wasanaeth arall, gall yr amod presenoldeb ei gwneud yn ofynnol hefyd i'r troseddwr dalu am gost resymol y ddarpariaeth o addysg, hyfforddiant neu wasanaeth. Bydd hyn yn benderfyniad i'r heddlu neu Gomisiynydd Heddlu a Throseddu yn ôl y gwasanaethau sydd ar gael.

c) Amodau gwneud iawn – Atgyweirio (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) unrhyw ddifrod a achoswyd; gweithgarwch gwneud iawn o fewn y gymuned yn gyffredinol; tâl i ddigolledu dioddefwr, busnes neu gymuned benodol; digollediad ariannol i gronfa elusennol neu gymunedol. Gellir digolledu hefyd mewn perthynas ag anaf personol, a gall y DPP ddyroddi canllawiau ar wahân ar y symiau priodol ar gyfer y rhain.

d) Ymddiheuriad – un ai'n bersonol neu mewn ysgrifen. Dylid bod yn ofalus wrth osod yr amod hwn i sicrhau bod yr ymddiheuriad yn cael ei wneud yn ddidwyll a'i fod yn cael ei dderbyn gan y dioddefwr. Dylai'r ymddiheuriad fod yn un gan y troseddwr a dylid nodi'n glir yn yr amod beth mae'r ymddiheuriad yn ymwneud ag ef. Dylai'r amod hwn gael ei gynllunio'n ofalus a'i ardystio gan y person awdurdodedig.

e) Amod cyfyngol – peidio â chwrdd neu gyfathrebu ag unigolion penodedig; peidio â bod mewn neu fynd i gyfeiriadau, lleoedd neu ardaloedd penodedig yn y Deyrnas Unedig; peidio â chyflawni neu gymryd rhan mewn gweithgareddau penodedig; peidio â chyflawni ymddygiad penodedig (a all gynnwys ymddygiad sy'n drosedd).

**Mae tabl o amodau pellach a awgrymir yn Atodiad B**

6.6 Mae tâl digolledu i ddioddefwr, busnes neu gymuned yn amod gwneud iawn ac nid yw'r un fath â gosod cosb ariannol i droseddwr. Mae amodau sy'n atodi cosbau ariannol i Rybuddiadau Dargyfeiriol a Chymunedol wedi'u hamlinellu yn Rhan 7 o'r Cod hwn.

6.7 Rhaid i gyfanswm unrhyw dâl digolledu a atodir i Rybuddiad Dargyfeiriol neu Gymunedol fod yn un y gall y troseddwr ei fforddio ac yn un y gellir ei dalu o fewn cyfnod rhesymol, yn unol â rhan 6.25. Mewn achosion lle na fyddai'r troseddwr yn gallu fforddio tâl i ddigolledu'r dioddefwr yn llwyr, gall y penderfynwr awgrymu tâl digolledu sy'n llai na'r cyfanswm os yw'n barnu bod hynny'n briodol. Mewn achosion o'r fath, cyn penderfynu gosod yr amod hwn, dylai'r penderfynwr ystyried a fyddai gorchymyn llys ar gyfer digolledu (y gellir ei dalu dros gyfnod hirach) yn ddatrysiad mwy addas, gan ystyried amgylchiadau'r achos.

6.8 Mewn amgylchiadau lle mae'r holl amodau dichonol wedi'u hystyried, ond lle bernir nad oes yr un ohonynt yn briodol, cymesur neu gyraeddadwy, gall penderfynwyr ystyried gosod amod a fyddai'n gofyn i'r troseddwr beidio â chyflawni ymddygiad penodedig, a all gynnwys ymddygiad sy'n golygu cyflawni trosedd.

6.9 Byddai amod o'r fath yn gytundeb i beidio â chyflawni trosedd debyg bellach am gyfnod penodedig. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod rhaid peidio â chanfod, un ai drwy gael tystiolaeth ddigonol neu o ganlyniad i ymchwiliad, fod y troseddwr wedi cyflawni trosedd o'r un math neu unrhyw droseddau newydd drwy gydol y cyfnod hwn. Dylid pennu hyn yn yr amod.

6.10 Rhaid i'r amod hwn fod yn fanwl fel y bydd yn hawdd canfod toriadau a chymryd camau gorfodi amdanynt. Rhaid darparu cyfiawnhad llawn dros osod amod o'r math hwn gan gyfeirio at y ffaith bod yr holl amodau eraill wedi'u hystyried a dylid monitro'r amod hwn yn yr un ffordd â'r holl amodau eraill fel a ddisgrifir yn Rhan 8. Yn ogystal â hyn, rhaid i'r defnydd o amodau o'r fath gael ei fonitro gan baneli craffu er mwyn sicrhau na fyddant yn cael eu gorddefnyddio.

**Cyfiawnder adferol**

6.11 Mae cyfiawnder adferol yn cynnig cyfle i hwyluso cyfathrebu rhwng y rheini a gaiff niwed drwy droseddu a’r rheini sy’n gyfrifol am ei gyflawni, fel y bydd pawb sy’n profi’r effaith o ddigwyddiad penodol yn gallu cyfrannu at adfer y niwed a dod o hyd i ffordd gadarnhaol i fynd ymlaen. Mae sylfaen dystiolaeth gadarn dros ei effeithiolrwydd wrth sicrhau bodlonrwydd dioddefwyr.

6.12 Gellir defnyddio’r broses hon lle mae’r dioddefwr a’r troseddwr yn cytuno arni. Bydd y ddau barti yn dod at ei gilydd mewn cynhadledd cyfiawnder adferol a gynhelir mewn amgylchedd rheoledig, ynghyd ag unigolion perthnasol eraill, mewn proses a hwylusir gan Swyddog Heddlu, staff neu hwylusydd allanol sydd wedi’i gomisiynu.

6.13 Bydd y cyfarfod yn dal y troseddwr yn bersonol atebol i’r dioddefwr a’r gymuned leol am y niwed y mae wedi’i achosi a bydd yn rhoi cyfle iddo wneud iawn. Mae’n grymuso’r dioddefwyr ac yn eu rhoi ar ganol y broses.

6.14 Mae cynadledda cyfiawnder adferol yn galw am ymgysylltu gwirfoddol gan y dioddefwr a’r troseddwr. Felly, yn rhan o amod ar rybuddiad, gellid cynnig cyfle i’r troseddwr gael asesiad o’i addasrwydd ar gyfer cyfiawnder adferol gan hwylusydd hyfforddedig. Ni ddylid gofyn i droseddwyr gymryd rhan drwy osod hynny fel amod. Y rheswm am hyn yw y byddai hwylusydd hyfforddedig yn gallu barnu, ar ôl asesu’r troseddwr, nad yw’n addas ar gyfer cyfiawnder adferol, neu y gallai’r dioddefwr wrthod cymryd rhan ar unrhyw bwynt cyn y gynhadledd. Dylai’r ddau barti gymryd rhan mewn cyfiawnder adferol o’u gwirfodd.

6.15 Dylai penderfynwyr sicrhau hefyd nad oes unrhyw ffactorau gorfodaethol sy’n hysbys, ac nad oes pwyso ar y dioddefwr i gymryd rhan. Gall y penderfynwr dynnu ar farn pobl eraill sy’n gysylltiedig â phrosesau cyfiawnder adferol i benderfynu ar addasrwydd a dod i benderfyniad.

6.16 Dim ond i rybuddiadau a ystyrir gan yr Heddlu y mae cyfiawnder adferol yn berthnasol. Dylai’r Heddlu sicrhau, ym mhob achos lle mae dioddefwr wedi’i enwi, fod cyfiawnder adferol wedi’i ystyried a bod ymgynghori â’r dioddefwr wedi digwydd, ac eithrio mewn achosion cam-drin domestig sy’n cynnwys cam-drin gan bartner personol lle na fydd hyn yn briodol. Mae’r ystyriaethau hyn yn unol ag adran 3.4 o’r Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr sy’n datgan bod hawl gan y dioddefwr i gael gwybodaeth am Gyfiawnder Adferol.

6.17 Mewn amgylchiadau lle nad yw hyn yn briodol, lle nad yw’n gallu digwydd am unrhyw reswm arall, neu lle mae’r dioddefwr yn ei wrthod o’r cychwyn, rhaid gwneud cofnod o’r penderfyniad hwn.

**Amod cosbol**

6.18 Ni ddylid atodi amod cosb ariannol (cosbol) heblaw mewn achosion lle gwelir nad yw'n ymarferol neu'n bosibl gosod amod adsefydlu neu wneud iawn yn dilyn ystyriaeth ofalus, ac mewn amgylchiadau sydd wedi'u disgrifio yn Rhan 7.

6.19 Mewn amgylchiadau lle mae amodau adsefydlu neu wneud iawn eisoes wedi'u defnyddio ar gyfer troseddwr sydd wedi cael rhybuddiad o'r blaen am drosedd debyg, dylai'r penderfynwr ystyried a oes modd sicrhau ymatal rhag troseddu ar yr achlysur hwn drwy osod amodau adsefydlu neu wneud iawn neu a fydd cosb ariannol yn fwy addas. Yn y ddau amgylchiad hyn, dylid cofnodi'r rheswm.

**Dewis amodau**

6.20 Rhaid i'r amodau a atodir i Rybuddiad Dargyfeiriol neu Gymunedol fod yn rhai **priodol**, **cymesur,** a **chyraeddadwy** ym mhob achos.

6.21 **Priodol** – Dylai'r penderfynwr geisio arfer dull datrys problemau gyda'r bwriad o newid ymddygiad y troseddwr ac, os yw'n bosibl, darparu iawn i ddioddefwr y drosedd. Yn achos y rhan fwyaf o droseddwyr, bydd y ddau nod hyn yn cael eu gweld yn flaenoriaeth.

6.22 Mewn achosion sy'n ymwneud â throseddwyr sy'n wladolion tramor, dylid ystyried gosod amodau troseddwr tramor cyn unrhyw fath arall o amodau.

6.23 **Cymesur** – Wrth benderfynu'r amodau sydd i'w hatodi i'r rhybuddiad, dylai'r penderfynwr ystyried yr amodau yn eu cyfanrwydd a cheisio sicrhau eu bod yn gymesur â'r ymddygiad troseddol. Dylid cyflawni'r amcanion drwy atodi'r nifer lleiaf posibl o amodau.

6.24 Mae'r un egwyddor yn gymwys i amodau a allai fod yn rhai cefnogol, fel triniaeth, ond sydd mewn perygl o fod yn anghymesur â'r drosedd.

6.25 **Cyraeddadwy** – Rhaid i droseddwyr allu cwblhau'r amodau yn foddhaol ac o fewn cyfnod rhesymol. Dylai'r penderfynwr gymryd i ystyriaeth amgylchiadau'r troseddwr, ei alluedd corfforol a meddyliol, a sicrhau bod unrhyw amodau ariannol (digollediad neu gosb ariannol) yn rhai y gall y troseddwr eu fforddio.

**Terfyn amser ar gyfer cwblhau amodau**

6.26 Wrth benderfynu ar y cyfnod y mae'n rhaid cwblhau'r amodau oddi mewn iddo, ar gyfer Rhybuddiad Dargyfeiriol, rhaid i'r penderfynwr gymryd i ystyriaeth unrhyw derfynau amser sy'n effeithio ar y gallu i gychwyn achos am y drosedd wreiddiol (gan fod rhaid erlyn am droseddau diannod yn unig o fewn chwe mis i ddyddiad y drosedd) a rhaid iddo sicrhau bod y dewis ar gael o hyd i erlyn am y drosedd wreiddiol os na chydymffurfir ag amodau.

6.27 Rhaid gallu cwblhau'r holl amodau adsefydlu, gwneud iawn a chosbol o fewn 16 wythnos yn achos trosedd diannod yn unig. Mewn achosion eithriadol, gall cyfnod hirach nag 16 wythnos fod yn addas ar gyfer trosedd neillffordd neu dditiadwy yn unig, yn ôl ffeithiau'r achos dan sylw, ond ni chaiff fod yn hirach nag 20 wythnos. Os pennir cyfnod hirach, rhaid iddo fod yn briodol, cymesur a chyraeddadwy yn yr un modd. Mae'r cyfnodau yn y paragraff hwn yn dechrau ar ddyddiad rhoddi'r rhybuddiad.

6.28 **Amodau Troseddwyr sy'n Wladolion Tramor:** Gweler Rhan 8

## Rhan 7: Cosbau ariannol

**Trosolwg a symiau'r cosbau**

7.1 Gellir atodi amod i Rybuddiad Dargyfeiriol neu Gymunedol yn ei gwneud yn ofynnol i'r troseddwr dalu cosb ariannol gyda'r bwriad o gosbi'r troseddwr.

7.2 Ni ddylid defnyddio amod cosb ariannol heblaw mewn achosion lle nad oes amodau gwneud iawn, adsefydlu neu gyfiawnder adferol sy'n briodol neu lle nad yw amodau o'r fath yn darparu ymateb cymesur i'r ymddygiad troseddol.

7.3 Nid yw cosb ariannol yr un peth â thâl digolledu i'r dioddefwr. Nid yw'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar wahân ar gyfer digolledu. Er hynny, mae'n dod o dan amodau gwneud iawn yn y Cod hwn ac o dan adrannau 101 a 109 yn y Ddeddf.

7.4 Yn unol â Rhan 7.2 o'r Cod hwn, ni ddylai penderfynwyr gymysgu rhwng digolledu (gwneud iawn) a chosb ariannol (cosbol) wrth osod amodau cychwynnol y rhybuddiad. Rhaid defnyddio'r naill neu'r llall. Mae hyn yn ganlyniad i gyfyngiadau presennol ar weithrediadau wrth brosesu elfennau ariannol mewn rhybuddiadau. Nid yw hyn yn rhwystro'r gallu i osod cosb ariannol yn dilyn anghydffurfio ag amod gwneud iawn ar gyfer digolledu.

7.5 Ar hyn o bryd, yr Heddlu yn unig sydd yn gallu gosod amodau cosb ariannol (yn ogystal â'r elfennau digolledu mewn rhybuddiad) wrth roi rhybuddiad. Nid yw'r amodau hyn ar gael i awdurdodau erlyn, ac eithrio lle gwneir penderfyniad i roi rhybuddiad gan y CPS, a bod hwnnw'n cael ei roi wedyn gan yr Heddlu.

7.6 Lle cynigir cwrs neu ymyriad adsefydlu i droseddwr ar ei draul ei hun, dylid gofalu na fydd hyn yn fwy manteisiol iddo yn ariannol na chytuno ar gosb ariannol yn lle hynny.

7.7 Wrth ystyried rhoi Rhybuddiad Cymunedol ag amod gwneud iawn ar gyfer digolledu am golled neu ddifrod, dylai'r penderfynwr egluro'r effaith o beidio â chydymffurfio i'r dioddefwr, h.y. yr unig ffordd i ddelio â'r troseddwr wedyn fydd drwy osod cosb ariannol yn arwain at gofrestru dirwy gyda'r llys ac na ellir cymryd camau pellach i gael digolledìad drwy'r rhybuddiad. Mae'n bwysig bod y penderfynwr yn ystyried yn ofalus a fyddai

Rhybuddiad Dargyfeiriol yn fwy addas oherwydd byddai modd cymryd camau am ddiffyg cydymffurfio wedyn drwy erlyn a gwneud cais i'r llys am ddigollediad ar ôl cael euogfarn.

7.8 Mewn amod cosb ariannol, rhaid pennu:

a) swm y gosb ariannol

b) y person y mae'n rhaid talu'r gosb ariannol iddo

c) ym mha ffordd y mae'n rhaid neu y gellir ei dalu, a

d) y dyddiad y mae'n rhaid ei thalu arno neu o'i flaen, sydd yn gorfod bod yn ddiwrnod olaf y cyfnod o 28 diwrnod yn dechrau ar y diwrnod y rhoddwyd y rhybuddiad.

7.9 Mae'r swm sy'n daladwy wedi'i bennu mewn Rheoliadau ac ni chaiff fod yn fwy na'r swm hwn. Bydd y symiau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod wedi'u gosod ar lefelau priodol. Ar hyn o bryd, dim ond cosbau ariannol o swm penodedig a ganiateir. Ni chaniateir taliadau rhannol neu randaliadau. Mae'r symiau penodedig ar gyfer y ddau fath o rybuddiad wedi'u dangos isod:

| | **Rhybuddiad Dargyfeiriol** | **Rhybuddiad Cymunedol** |
|---|---|---|
| **Trosedd ddiannod neu neillffordd** | £100 | £100 |
| **Trosedd dditiadwy yn unig** | £150 | Amherthnasol |

**Cynyddu'r swm am beidio â thalu**
7.10 <u>Rhybuddiad Cymunedol</u>: Rhaid gwneud y taliad erbyn dyddiad nad yw'n hwyrach na 28 diwrnod ar ôl dyddiad rhoi'r rhybuddiad. Yn unol ag adran 111 o'r Ddeddf, os na thelir y gosb ariannol cyn neu ar y dyddiad a bennwyd o dan adran 111(2)(d), yna bydd swm y gosb y mae gofyn ei thalu o dan yr amod yn cynyddu 50% yn awtomatig, gan godi'r gosb ariannol i £150.

7.11 <u>Rhybuddiad Dargyfeiriol</u>: Rhaid gwneud y taliad erbyn dyddiad nad yw'n hwyrach na 28 diwrnod ar ôl dyddiad rhoi'r rhybuddiad. Os na fydd y troseddwr yn gwneud taliad o fewn y cyfnod penodedig heb esgus rhesymol, yna gellir cymryd mai diffyg cydymffurfio yw hyn a gellir cymryd y camau yn Rhan 9 o'r Cod hwn mewn perthynas a thorri amodau ac erlyn.

**Gorfodi**
7.12 Os na thelir y gosb a gynyddwyd o dan Rybuddiad Cymunedol o fewn y cyfnod o 21 diwrnod yn dechrau ar y diwrnod ar ôl y dyddiad a bennwyd o dan adran 111(2)(d), yna

gellir cofrestru swm y gosb a gynyddwyd o dan adran 112 o'r Ddeddf er mwyn cymryd camau gorfodi yn erbyn y troseddwr drwy osod dirwy.

7.13 Ar y pwynt hwn, gall yr Heddlu hefyd benderfynu tynnu'n ôl y gosb ariannol, er enghraifft, os bydd amgylchiadau'r troseddwr yn newid neu os nad yw'r amod yn gymesur neu'n gyraeddadwy bellach am ba reswm bynnag. Gellir amrywio'r amod hwn a rhoi amod arall yn ei le yn unol â Rhan 9.46 o'r Cod hwn.

7.14 Yn dilyn penderfyniad i gymryd camau gorfodi, gall yr Heddlu roi tystysgrif ("tystysgrif gofrestru") yn nodi manylion y gosb ariannol, gan ddatgan y gellir cofrestru'r swm er mwyn cymryd camau gorfodi yn erbyn y troseddwr drwy osod dirwy, a datgan enw'r troseddwr a'i gyfeiriad hysbys diwethaf. Rhaid anfon y dystysgrif hon at y swyddog dynodedig ar gyfer yr ardal gyfiawnder leol (Llys yr Ynadon) lle mae'n ymddangos bod y troseddwr yn preswylio.

7.15 Ni ellir gorfodi'r Rhybuddiad Dargyfeiriol drwy osod dirwy. Yr unig ffordd i orfodi'r gosb yw drwy erlyn am y drosedd wreiddiol.

**Gweinyddu cosbau ariannol**

7.16 Yn unol ag adrannau 102(4) a 111(4) o'r Ddeddf, bydd cosbau ariannol sy'n gysylltiedig â Rhybuddiadau Dargyfeiriol a Chymunedol yn cael eu trafod gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF (GLlTEF). Bydd GLlTEF hefyd yn trafod unrhyw daliadau digolledu sy'n rhan o amod gwneud iawn mewn rhybuddiad.

7.17 Bydd y broses weithredu sy'n gymwys wrth roi cosbau ariannol yn cael ei dyroddi ar wahân i'r Cod hwn.

## Rhan 8: Troseddwyr sy'n Wladolion Tramor

8.1 Yn unol â'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng y CPS, Gorfodaeth Mewnfudo ("IE") a heddluoedd ar lefel genedlaethol, gellir cynnig Rhybuddiad Dargyfeiriol ag amodau troseddwr tramor wedi'i atodi iddo i Droseddwr sy'n Wladolyn Tramor lle mae'r pum gofyniad am roi rhybuddiad wedi'u bodloni. Amcanion yr amodau yw:

a) Peri bod y Troseddwr sy'n Wladolyn Tramor cysylltiedig yn ymadael â'r Deyrnas Unedig.

b) Sicrhau na fydd y Troseddwr sy'n Wladolyn Tramor cysylltiedig yn dychwelyd i'r Deyrnas Unedig am gyfnod penodedig.

8.2 Os yw'n ystyried atodi amod troseddwr tramor, rhaid i'r penderfynwr ymgynghori â'r CPS i sicrhau nad oes gwrthdaro ag erlyniadau blaenoriaethol neu ystyriaethau o ran polisi mewnfudo'r CPS.

8.3 Os bydd yr amod yn pennu na chaiff y troseddwr ddychwelyd i'r Deyrnas Unedig am gyfnod penodol, yna ni fydd y ffaith bod y cyfnod hwn wedi dod i ben yn arwain at unrhyw hawl ar ran y troseddwr i ddychwelyd i'r Deyrnas Unedig.

8.4 Yn ogystal â hyn, dylai'r penderfynwr bennu hefyd fod modd cwrdd â budd y cyhoedd drwy'r ffaith bod y Troseddwr sy'n Wladolyn Tramor yn ymadael â'r Deyrnas Unedig ac yn cytuno i beidio â dychwelyd am gyfnod penodedig.

8.5 Mae amodau troseddwr tramor yn galw am gynllunio gofalus, a rhaid i'r penderfynwr ymgynghori ag IE cyn penderfynu a fydd yn rhoi amod troseddwr tramor i droseddwr. Yn benodol, dylai'r penderfynwr gael gwybodaeth am statws mewnfudo y troseddwr, y tebygolrwydd iddo gael ei symud o'r Deyrnas Unedig o fewn cyfnod rhesymol ac a oes unrhyw ddibynyddion y bydd gofyn eu symud hefyd o dan y rheolau mewnfudo perthnasol. Mae IE yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth ag amodau troseddwr tramor ac am adrodd ar ddiffyg cydymffurfio i'r person awdurdodedig.

8.6 Wrth ystyried defnyddio amodau troseddwr tramor, dylai'r Heddlu hefyd ymgysylltu â'r CPS i sicrhau nad oes gwrthdaro rhwng camau i symud Troseddwr sy'n Wladolyn Tramor am droseddau mewnfudo ac unrhyw fudd i'r cyhoedd mewn erlyn troseddwyr blaenoriaethol. Dylai'r Heddlu gyfeirio at y canllawiau cynhwysfawr a ddyroddwyd gan y DPP mewn perthynas â'r amodau hyn a'r trefniadau ymarferol ar gyfer delio ag achosion o'r fath.

8.7 Gellir rhoi amodau troseddwr tramor i beri i'r troseddwr ymadael â'r Deyrnas Unedig a sicrhau na fydd y troseddwr yn dychwelyd am gyfnod penodedig. Bydd yr amodau hyn yn gallu ei gwneud yn ofynnol i'r troseddwr:

a) Adrodd yn rheolaidd i swyddfa fewnfudo, canolfan adrodd, gorsaf heddlu neu le tebyg arall.

b) Cael neu gynorthwyo awdurdodau i gael dogfen deithio genedlaethol ddilys.

c) Cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd cyfreithlon a roddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu swyddog mewnfudo.

8.8 Dylid cwblhau amodau i beri ymadawiad y Troseddwr sy'n Wladolyn Tramor cysylltiedig yn rhan o Rybuddiad Dargyfeiriol cyn gynted ag y gellir yn rhesymol ac yn y rhan fwyaf o achosion o fewn 16 wythnos. Mewn achosion eithriadol, gellir pennu cyfnod hirach lle mae'r broses weinyddol mewn rhai cyrchwledydd yn debygol o gymryd mwy nag 16 wythnos. Ni fydd amod o'r math hwn yn briodol lle bydd yn cymryd mwy na 24 wythnos i'w gwblhau. Mae cyfnodau yn y paragraff hwn yn dechrau o'r dyddiad y rhoddwyd y Rhybuddiad Dargyfeiriol.

8.9 Fel arfer, bydd amodau sy’n ymwneud â sicrhau na fydd y Troseddwr sy’n Wladolyn Tramor cysylltiedig yn dychwelyd o fewn cyfnod penodol yn rhai sy’n unol â’r Rheolau Mewnfudo. Mewn achosion eithriadol, gellir pennu cyfnod hirach yn yr amod na’r un a bennwyd yn y Rheolau Mewnfudo. Bydd yn rhaid i gyfnod hirach o’r fath fod yn briodol, yn gymesur ac yn gyraeddadwy yn yr un modd. Er enghraifft, gallai hyn fod yn ofynnol ar gyfer troseddau difrifol sydd un ai’n droseddau neillffordd neu’n droseddau ditiadwy yn unig.

8.10 Ni ellir rhoi amodau troseddwr tramor:

a) Lle mae sail resymol dros gredu bod y drosedd yn gysylltiedig â masnachu pobl, lle mae’r troseddwr un ai’n ddioddefwr neu’n gyflawnwr; neu

b) Lle mae rhwystrau rhag symud y troseddwr, a all gynnwys amgylchiadau lle mae Troseddwr sy’n Wladolyn Tramor wedi gwneud hawliad lloches neu hawliau dynol i aros yn y DU a bod yr hawliad hwnnw heb ei benderfynu. Mae hyn yn berthnasol iawn lle mae’r troseddwr o dan amheuaeth o gyflawni twyll ynghylch dogfen neu hunaniaeth er mwyn hawlio lloches neu wneud hawliad ar sail hawliau dynol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn rhwystr i gynnig amodau troseddwr tramor lle mae’r hawliad lloches neu hawliau dynol wedi’i wrthod (ac unrhyw apêl yn erbyn y gwrthodiad hwnnw wedi’i phenderfynu’n derfynol), lle mae’r Troseddwr sy’n Wladolyn Tramor cysylltiedig yn tynnu’n ôl yr hawliad yn wirfoddol, neu lle mae’r caniatâd ar gyfer lloches a gafodd y troseddwr tramor cysylltiedig wedi cael ei ddiddymu neu heb gael ei adnewyddu yn rhinwedd paragraff 339A o’r Rheolau Mewnfudo. Mewn achosion o’r fath, gellir ystyried a oes modd cynnig amodau troseddwr tramor. Gall hyn fod yn berthnasol dros ben lle mae’r troseddwr wedi’i gyhuddo o’r drosedd a Rhybuddiad Dargyfeiriol yn cael ei ystyried ar ôl ei gyhuddo. Ymhlith y rhwystrau eraill i symud troseddwr y mae’r gofyniad i ganfod a oes angen i’r troseddwr aros yn y DU er mwyn darparu tystiolaeth (fel tyst) mewn achos troseddol ac nad oes modd rhoi tystiolaeth drwy ddolen fideo fyw o wlad dramor.

8.11 Mae’r pwyntiau cyffredinol a ganlyn yn gymwys i amodau troseddwr tramor hefyd:

a) Gellir gweinyddu Rhybuddiad Dargyfeiriol sydd ag amod troseddwr tramor mewn porthladd neu ganolfan symud mewnfudwyr neu le tebyg os na chaiff ei weinyddu mewn gorsaf heddlu.

b) Mewn perthynas â gweinyddu rhybuddiad sydd ag amod troseddwr tramor, neu wrth ddelio â rhai nad ydynt yn siarad Saesneg, rhaid i’r defnyddiwr awdurdodedig sicrhau bod effaith y rhybuddiad a gweinyddiad y rhybuddiad yn cael eu hegluro mewn iaith y gall y troseddwr ei deall.

c) Os yw’r Troseddwr sy’n Wladolyn Tramor cysylltiedig wedi derbyn Rhybuddiad Dargyfeiriol ag amodau troseddwr tramor, caiff wneud cais er hynny i aros yn y DU

ar sail lloches neu hawliau dynol. Lle mae hyn yn digwydd, bydd y Troseddwr sy’n Wladolyn Tramor cysylltiedig yn gallu dewis tynnu’n ôl o’r rhybuddiad. Yn ogystal â hyn, dylai’r penderfynwr ystyried a ddylid trin y cais i aros yn y DU fel diffyg cydymffurfio ac a ddylid erlyn y troseddwr am y drosedd wreiddiol.

d) Rhaid atgyfeirio troseddau ditiadwy yn unig i benderfynwr y CPS, y dirprwywyd hawl cydsynio’r DPP iddo, i benderfynu a yw Rhybuddiad Dargyfeiriol yn briodol, yn cynnwys lle gallai amodau troseddwr tramor fod yn addas.

e) Gellir cynnig amodau troseddwr tramor mewn achos a fyddai’n arwain fel arfer at roi dedfryd o garchar yn dilyn euogfarn. Fodd bynnag, gellir cynnig hyn dim ond lle mae’r penderfynwr yn barnu, ar ôl ystyried holl amgylchiadau’r achos, y byddai’r ddedfryd sy’n debygol o gael ei rhoi am y drosedd dan sylw yn ddedfryd o garchar o lai na dwy flynedd.

f) Bydd y Troseddwr sy’n Wladolyn Tramor cysylltiedig yn gallu dewis tynnu’n ôl o’r Rhybuddiad Dargyfeiriol. Yn ogystal â hyn, dylai’r penderfynwr ystyried a ddylid trin y cais i aros yn y DU fel diffyg cydymffurfio ac a ddylid erlyn y troseddwr am y drosedd wreiddiol.

## Rhan 9: Gweinyddu a phroses

**Awdurdod i roi rhybuddiad a gwneud penderfyniadau am amodau**

9.1 Mae Rhybuddiad Dargyfeiriol neu Gymunedol yn gallu cael ei **roi** gan berson awdurdodedig. O dan adran 98(7) o’r Ddeddf, ystyr person awdurdodedig yw:

a) cwnstabl

i. swyddog ymchwilio, sef swyddog Cyllid a Thollau a benodwyd yn unol ag adran 2(1) o Ddeddf y Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005

ii. person a ddynodwyd yn swyddog cymorth yr heddlu neu’n wirfoddolwr cymorth yr heddlu o dan adran 38 o Ddeddf Diwygio’r Heddlu 2002

b) person a awdurdodwyd gan awdurdod erlyn i ddibenion sy’n ymwneud â rhybuddiadau o’r math hwnnw.

9.2 O dan adran 121 o’r Ddeddf, ystyr awdurdod erlyn yw:

a) y Twrnai Cyffredinol;

b) Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus;

c) Cyfarwyddwr y Swyddfa Twyll Difrifol;

d) Yr Ysgrifennydd Gwladol;

e) person a bennwyd mewn rheoliadau.

9.3 Mae’r amodau a atodir i rybuddiad i gael eu penderfynu gan:

a) Person awdurdodedig, neu

b) Mewn achos lle gofynnwyd i’r CPS awdurdodi rhoddi rhybuddiad, sef fel arfer dim ond mewn achosion yn ymwneud â throseddau ditiadwy yn unig, cam-drin domestig neu droseddau casineb, lle bydd yr CPS yn cytuno â’r Heddlu ar yr amodau cyn rhoi awdurdodiad.

9.4 Yn unol â Rhan 5 o’r Cod, rhaid i’r penderfyniad i roi rhybuddiad gael ei awdurdodi gan swyddog nad yw ar radd is na gradd Rhingyll (neu swydd gyfatebol yn staff yr Heddlu).

9.5 Tabl cyfeirio ar gyfer yr Heddlu:

| | **Cwnstabl neu un ar radd uwch (neu swyddog cyfatebol yn staff yr Heddlu)** | **Rhingyll (neu swyddog cyfatebol yn staff yr Heddlu)** | **Arolygydd neu un ar radd uwch** |
|---|---|---|---|
| **Gellir ei roi gan** | **X** | | |
| **Awdurdod i’w roi** | | **X** | |
| **Awdurdod i’w roi ar gyfer trosedd eithriedig (Rhybuddiadau Dargyfeiriol yn unig)** | | | **X** |
| **Penderfynu ar amodau** | **X** | | |

**Man gweinyddu**

9.6 Gellir gweinyddu Rhybuddiad Dargyfeiriol neu Gymunedol mewn gorsaf heddlu, adeilad llys, yn swyddfeydd unrhyw awdurdod erlyn, mewn swyddfa cyfreithiwr, neu mewn unrhyw leoliad arall sy’n addas i sicrhau effaith briodol ar y troseddwr.

9.7 Gan amlaf, ni fydd yn briodol gweinyddu'r rhybuddiad mewn man cyhoeddus (er enghraifft, ar y stryd) neu yng nghartref y troseddwr. Mae hyn yn dangos y gwahaniaeth clir rhwng rhybuddiad a'r Datrysiad Cymunedol anffurfiol, y gellir ei roi ar y stryd neu yng nghartref y troseddwr.

9.8 Fodd bynnag, mewn amgylchiadau eithriadol, yn achos troseddwr oedrannus, er enghraifft, neu un sydd â nam corfforol neu sydd yn agored i niwed, neu lle mae gofyniad i gadw pellter ffisegol neu gyngor i aros gartref, fe ellir gweinyddu'r rhybuddiad yng nghartref y troseddwr neu mewn lle tebyg, ar yr amod bod y weithdrefn gywir yn cael ei dilyn ar gyfer gweinyddu'r rhybuddiad. Dylai'r penderfyniad i roi rhybuddiad gan yr Heddlu mewn amgylchiadau o'r fath gael ei gytuno gan swyddog ar radd nad yw'n is na gradd Rhingyll neu swyddog cyfatebol yn staff yr Heddlu.

9.9 Yn yr amgylchiadau hyn, ac er mwyn diogelu'r swyddog sy'n ei roi ac uniondeb y broses, dylid recordio'r gweinyddu ar Gamera Fideo a Wisgir ar y Corff (os yw ar gael). Dylai'r swyddog sicrhau bod lluniau fideo yn cael eu tynnu o'r datganiad ysgrifenedig ac o'r troseddwr yn derbyn y rhybuddiad.

9.10 Os mai'r CPS neu awdurdodau erlyn eraill yw'r penderfynwr ar gyfer rhybuddiad, bydd yn ofynnol er hynny i'r Heddlu wneud y darpariaethau ar gyfer gweinyddu'r rhybuddiad mewn unrhyw fan lle gellir gwneud hyn yn deg ac yn breifat. Yn y rhan fwyaf o achosion, mewn swyddfa heddlu y bydd hynny a byth yn swyddfeydd y CPS neu unrhyw awdurdod erlyn arall.

9.11 Cyn gweinyddu'r rhybuddiad, dylai'r penderfynwr sicrhau bod y troseddwr yn cael cyfle i dderbyn cyngor cyfreithiol annibynnol am ddim mewn perthynas â'r drosedd. Mae'n bwysig bod y penderfynwr yn sicrhau bod y troseddwr yn deall bod ganddo hawl i gael cyngor cyfreithiol ar unrhyw adeg yn ystod y broses.

**Effaith rhybuddiadau**

9.12 Mae Rhybuddiadau Dargyfeiriol a Rhybuddiadau Cymunedol yn creu goblygiadau i'r troseddwr. Cyn gweinyddu'r rhybuddiadau, bydd yn bwysig egluro'r rhain yn llawn i droseddwyr, ynghyd â'r goblygiadau o unrhyw fethiant i gydymffurfio â'r amodau a atodwyd.

**Effaith y Rhybuddiad Dargyfeiriol**

9.13 Lle rhoddir Rhybuddiad Dargyfeiriol, gellir cychwyn achos troseddol yn erbyn y troseddwr am y drosedd y rhoddwyd y rhybuddiad amdani ond dim ond os bydd y troseddwr yn methu heb esgus rhesymol â chydymffurfio ag unrhyw amodau a atodwyd i'r rhybuddiad. Bydd y ddogfen a lofnodwyd gan y troseddwr wrth dderbyn y rhybuddiad yn dystiolaeth dderbyniadwy yn yr achos hwn. Os cymerir camau i erlyn, bydd effaith y Rhybuddiad Dargyfeiriol yn darfod.

**Effaith y Rhybuddiad Cymunedol**

9.14 Lle rhoddir Rhybuddiad Cymunedol, ni ellir cychwyn achos troseddol yn erbyn y troseddwr am y drosedd y rhoddwyd y rhybuddiad mewn perthynas â hi.

9.15 Os bydd y troseddwr yn methu heb esgus rhesymol â chydymffurfio ag unrhyw amod a osodwyd, yna bydd person awdurdodedig neu awdurdod erlyn yn gallu dad-wneud yr amod ac atodi cosb ariannol. Os na chaiff hon ei thalu, gellir dilyn y broses a amlinellwyd yn Rhan 7 – gweler cosbau ariannol.

**Cynnig y rhybuddiad ac egluro ei effaith**

9.16 Wrth gynnig Rhybuddiad Dargyfeiriol neu Gymunedol, ond cyn ei weinyddu, rhaid i'r person awdurdodedig egluro effaith y rhybuddiad a sicrhau bod y troseddwr yn cael cyfle i dderbyn cyngor cyfreithiol mewn perthynas â'r drosedd.

9.17 Rhaid i'r person awdurdodedig:

a) Rhoi gwybod i'r troseddwr am y dystiolaeth yn ei erbyn a'r penderfyniad a wnaed gan y penderfynwr (person awdurdodedig neu awdurdod erlyn);

b) Egluro gofynion y rhybuddiad, yn cynnwys beth yn union y mae pob amod yn gofyn i'r troseddwr ei wneud;

c) Egluro'r gofyniad am gyfaddef y drosedd, a'r canlyniad o'i chyfaddef, ac yn achos Rhybuddiad Dargyfeiriol, egluro y gellir defnyddio'r addefiad fel tystiolaeth os bydd yr achos yn arwain at erlyn;

d) Ei gwneud yn glir i'r troseddwr na ddylid byth gwneud addefiad dim ond i gael rhybuddiad;

e) Egluro y bydd y rhybuddiad yn rhan o gofnod troseddol y troseddwr ac y gallai fod angen ei ddatgelu mewn rhai amgylchiadau, yn cynnwys i gyflogwr neu ddarpar gyflogwr lle gofynnir am wiriad o gofnodion troseddol. Rhaid egluro hefyd y gellir cael amgylchiadau lle mae derbyn rhybuddiad yn golygu y gellir cymryd y drosedd i ystyriaeth wrth benderfynu a fydd troseddwr yn cael ei atal rhag gweithio gyda phlant neu bobl agored i niwed (gweler Rhan 10 o'r Cod hwn am ganllawiau pellach);

f) Egluro y bydd Rhybuddiad Dargyfeiriol a roddir mewn perthynas â throsedd yn Atodlen 3 i Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 yn gofyn i'r troseddwr gydymffurfio â'r gofynion am hysbysu yn y Ddeddf honno;

g) Egluro y bydd y troseddwr yn gallu penderfynu tynnu'n ôl o'r rhybuddiad ar unrhyw adeg, boed hynny cyn, yn ystod neu ar ôl ei weinyddu;

h) Rhybuddio'r troseddwr yr ymchwilir i unrhyw fethiant i gydymffurfio â'r amodau. Rhoddir cyfle i'r troseddwr egluro'r rhesymau dros beidio â chydymffurfio â'r

amodau. Bydd y penderfynwr yn ystyried yr adroddiad ac amgylchiadau'r achos, yn cynnwys graddau unrhyw gydymffurfio tan hynny, ac

- (yn achos Rhybuddiad Dargyfeiriol) gall benderfynu y dylid erlyn y troseddwr am y drosedd wreiddiol;
- (yn achos Rhybuddiad Cymunedol) gall benderfynu y dylai'r troseddwr dalu cosb ariannol, neu os defnyddiwyd yr amod hwn eisoes gall benderfynu cymryd camau gorfodi am ddiffyg cydymffurfio drwy ddirwy llys;

i) Hysbysu'r troseddwr y gellir hysbysu'r dioddefwr neu ddioddefwyr am yr amodau a gytunwyd (oni bai fod rheswm da dros beidio â gwneud hynny) ac y gellir darparu manylion y troseddwr i'r dioddefwr neu ddioddefwyr ar gyfer unrhyw achos sifil; a

j) Cadarnhau bod y troseddwr yn derbyn yr amodau ac yn cytuno i dderbyn y rhybuddiad.

9.18 Wrth gydymffurfio â'r adran uchod, rhaid i'r person awdurdodedig roi sylw i ddarpariaethau Cod C PACE (yn ymwneud â throseddwyr sydd ag anhwylder meddwl neu wendid meddwl) a'r defnydd o oedolyn priodol. Hefyd, wrth ddelio â rhai nad ydynt yn siarad Saesneg, rhaid i'r person awdurdodedig sicrhau bod yr adran hon yn cael ei hegluro mewn iaith y gall y troseddwr ei deall.

**Gweinyddu'r rhybuddiad**

9.19 Wrth weinyddu'r rhybuddiad, dylai'r person awdurdodedig sicrhau bod y troseddwr yn deall y canlynol:

a) Bod hawl gan y troseddwr i gael cyngor cyfreithiol annibynnol.

b) Yr effeithiau o dderbyn rhybuddiad sef, yn benodol, er nad yw'n euogfarn droseddol, y bydd y rhybuddiad yn rhan o gofnod troseddol y troseddwr ac, yn ôl y rhybuddiad a dderbyniwyd, y gellir ei ddatgelu mewn rhai amgylchiadau, a all atal y troseddwr rhag gweithio mewn rhai galwedigaethau (gweler Rhan 10 o'r Cod hwn am ganllawiau pellach).

c) Y ffordd o wirio cydymffurfiaeth â phob un o'r amodau (yn cynnwys unrhyw gyfrifoldebau sydd gan y troseddwr i ddangos cydymffurfiaeth).

d) Os bydd y troseddwr yn penderfynu tynnu'n ôl o'r rhybuddiad, y dylai'r troseddwr hysbysu'r person awdurdodedig cyn gynted â phosibl. Gall y penderfynwr benderfynu wedyn y dylid cyhuddo'r troseddwr am y drosedd wreiddiol a'i erlyn.

e) Y broses ar gyfer cysylltu â'r Heddlu (neu asiantaeth erlyn arall sy'n monitro cydymffurfiaeth) os bydd unrhyw broblemau'n codi wrth gydymffurfio â'r amodau neu os bydd y troseddwr yn penderfynu tynnu'n ôl o broses y rhybuddiad.

f) Y canlyniadau o fethu â chwblhau'r rhybuddiad sef, yn achos Rhybuddiad Dargyfeiriol, y gall y troseddwr fod yn agored i'w arestio a'i erlyn am y drosedd wreiddiol, *neu* yn achos Rhybuddiad Cymunedol, y gellir rhoi cosb ariannol y mae modd ei gorfodi drwy osod dirwy llys.

g) Unrhyw ofyniad i hysbysu'r Heddlu (neu asiantaeth arall sy'n monitro cydymffurfiaeth) ar unwaith os bydd yn newid ei gyfeiriad.

9.20 Wrth gydymffurfio â'r uchod, rhaid i'r defnyddiwr awdurdodedig roi sylw i ddarpariaethau Cod C PACE (yn ymwneud â throseddwyr sydd ag anhwylder meddwl neu wendid meddwl) a'r defnydd o oedolyn priodol. Hefyd, wrth ddelio â rhai nad ydynt yn siarad Saesneg, rhaid i'r person awdurdodedig sicrhau bod yr adran hon yn cael ei hegluro mewn iaith y gall y troseddwr ei deall.

**Dogfennu'r rhybuddiad**

9.21 O dan adran 99(2)(e) a 108(2)(e), wrth weinyddu'r rhybuddiad, rhaid i'r troseddwr lofnodi dogfen sy'n nodi'r canlynol:

a) Manylion y drosedd, yn cynnwys y Ddeddf ac adran berthnasol

b) Addefiad y troseddwr iddo gyflawni'r drosedd

c) Cydsyniad y troseddwr i dderbyn y rhybuddiad

d) Yr amodau a atodwyd i'r rhybuddiad

9.22 Nid yw'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cyhoeddi ffurflenni gorfodol cenedlaethol (ffurflenni MG14 nac eraill) ar gyfer rhoi rhybuddiadau. Cyfrifoldeb heddluoedd ac awdurdodau erlyn yw sicrhau bod unrhyw ffurflenni a gaiff eu rhoddi, eu llofnodi neu eu cofnodi mewn perthynas â rhybuddiadau yn cynnwys gwybodaeth ddigonol fel a amlinellwyd yn y Cod hwn.

**Monitro cydymffurfiaeth**

9.23 Wrth benderfynu'r amodau sydd i'w hatodi i rybuddiad, dylai'r penderfynwr ystyried y mecanwaith ar gyfer monitro a dangos cydymffurfiaeth â'r amodau.

9.24 Rhaid i'r broses monitro gael ei gwneud yn glir i'r troseddwr ac i unrhyw sefydliad sy'n gyfrifol am ddarparu gwybodaeth o'r fath. Lle bo'n rhesymol a phriodol, gellir rhoi'r cyfrifoldeb am ddarparu cadarnhad o gydymffurfiaeth i'r troseddwr yn benodol.

9.25 Mae IE yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth ag amodau troseddwr tramor ac am adrodd ar ddiffyg cydymffurfio i'r person awdurdodedig. Ar gyfer amodau o bob math, y person awdurdodedig fydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros fonitro cydymffurfiaeth ag amodau.

9.26 Rhaid rhoi proses ddibynadwy ar waith i ddangos cydymffurfiaeth. Gall hon gynnwys cytundebau â’r canlynol:

a) Sefydliadau sydd â rhan mewn cyflawni’r amodau, e.e. gwasanaethau triniaeth cyffuriau

b) Swyddogion Heddlu a staff eraill yr heddlu

c) IE mewn perthynas ag amodau troseddwr tramor

d) Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi

e) Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi (ar gyfer casglu arian).

**Peidio â chydymffurfio**

9.27 Wrth fonitro’r cynnydd ar gyflawni amodau a atodwyd i Rybuddiad Dargyfeiriol neu Gymunedol, gellir canfod enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio, fel y bydd angen i’r person neu gorff awdurdodedig gadarnhau’r amgylchiadau a phenderfynu ar y camau nesaf.

**Profi diffyg cydymffurfio ag amodau**

9.28 Lle mae’n ymddangos i’r person awdurdodedig, neu asiantaeth arall, neu gorff sy’n monitro cydymffurfiaeth fod y troseddwr yn methu â chydymffurfio ag un neu ragor o amodau, dylai ddarparu cyfle i’r troseddwr egluro a dangos cydymffurfiaeth neu ddangos a oes unrhyw esgus rhesymol dros beidio â chydymffurfio. Os yw asiantaeth neu sefydliad arall yn monitro cydymffurfiaeth, rhaid rhoi adroddiad am y diffyg cydymffurfio ynghyd ag ymateb y troseddwr i’r person awdurdodedig.

9.29 Lle na cheir ymateb gan y troseddwr, neu lle mae’r penderfynwr yn dod i’r casgliad nad oes esgus rhesymol dros y methiant neu fod y diffyg cydymffurfio yn debygol o barhau, rhaid gwneud asesiad pellach o’r opsiynau sydd ar gael.

**Penderfyniadau i’w gwneud yn dilyn diffyg cydymffurfio neu dynnu’n ôl**

9.30 Lle mae’r penderfynwr wedi’i fodloni bod esgus rhesymol dros fethiant y troseddwr i gwrdd â’r amodau, neu os cafwyd cydymffurfiaeth rannol sylweddol, bydd y penderfynwr yn gorfod penderfynu a ddylid:

a) Ystyried bod y rhybuddiad wedi’i gyflawni.

b) Ystyried bod y rhybuddiad heb ei gyflawni ond nad oes budd i’r cyhoedd mewn cymryd camau pellach.

c) Gosod terfyn amser newydd ar gyfer cwblhau’r amodau gwreiddiol neu a ddylid amrywio’r amodau gwreiddiol.

9.31 Os nad oes esgus rhesymol neu ddim ond cydymffurfiaeth rannol, yna dylai'r penderfynwr ystyried camau pellach.

**Camau pellach yn dilyn diffyg cydymffurfio â Rhybuddiad Dargyfeiriol**

9.32 Hyd yn oed mewn amgylchiadau lle na chydymffurfiwyd ag amodau, yn achos Rhybuddiadau Dargyfeiriol, ni ddylai byth ddilyn y bydd erlyniad yn cychwyn yn awtomatig. Ar y pwynt hwn, rhaid ailgynnal y Prawf Cod Llawn i ganfod a oes tystiolaeth ddigonol o hyd i gyhuddo'r troseddwr a bod budd i'r cyhoedd mewn erlyn.

9.33 Mae Canllawiau'r DPP ar Gyhuddo yn pennu'r troseddau hynny lle mae awdurdod gan yr Heddlu i gyhuddo a'r troseddau hynny lle mae'n rhaid i'r penderfyniad hwn gael ei wneud gan y CPS. Os yw'r Heddlu wedi rhoi Rhybuddiad Dargyfeiriol am drosedd lle mae angen cael awdurdodiad gan y CPS i gyhuddo, yna bydd y penderfyniad i gyhuddo yn dilyn torri amodau a atodwyd yn un i'r CPS yn unig.

**Erlyn yn dilyn diffyg cydymffurfio â Rhybuddiad Dargyfeiriol**

9.34 Lle mae'r penderfynwr wedi penderfynu bod troseddwr wedi methu heb esgus rhesymol â chydymffurfio â Rhybuddiad Dargyfeiriol, rhaid iddo sicrhau bod y Prawf Cod Llawn yn cael ei fodloni o hyd. Felly, dylai aros yn wir bod tystiolaeth ddigonol i gyhuddo'r troseddwr am y drosedd wreiddiol, a bod budd i'r cyhoedd mewn erlyn. Os bodlonir y Prawf Cod Llawn, yna dylid cychwyn achos cyn gynted â phosibl.

9.35 Rhaid i'r person awdurdodedig sicrhau bod y troseddwr wedi'i hysbysu a bod unrhyw gofnodion Heddlu lleol a chenedlaethol yn cael eu diwygio yn unol â hynny. Unwaith y bydd yr achos wedi cychwyn, bydd effaith y Rhybuddiad Dargyfeiriol yn darfod. Er hynny, dylid cofnodi'r ffaith bod Rhybuddiad Dargyfeiriol wedi'i roi a bod y troseddwr wedi methu â chydymffurfio ag ef.

9.36 Lle bydd erlyniad am y drosedd wreiddiol yn dilyn methiant i gyflawni amodau a atodwyd i Rybuddiad Dargyfeiriol, dylai'r erlynydd sicrhau bod y llys yn cael ei hysbysu am y ffaith hon a darparu manylion yr amodau a atodwyd i'r rhybuddiad a graddau unrhyw gydymffurfiaeth rannol. Gall y llys wneud defnydd o'r wybodaeth hon wrth ystyried yr achos. Mae adran 105 o'r Ddeddf yn darparu bod y ddogfen sy'n cofnodi'r Rhybuddiad Dargyfeiriol ac wedi'i llofnodi gan y troseddwr yn dystiolaeth dderbyniadwy mewn achos o'r fath.

**Camau pellach yn dilyn diffyg cydymffurfio â Rhybuddiad Cymunedol**

9.37 Nid yw diffyg cydymffurfio â Rhybuddiad Cymunedol yn gallu arwain at erlyn. Os bydd y troseddwr yn methu heb esgus rhesymol â chydymffurfio ag unrhyw amod adsefydlu neu wneud iawn, bydd y person awdurdodedig neu awdurdod erlyn yn gallu dad-wneud yr amod gwreiddiol ac atodi amod cosb ariannol. Yn unol ag adran 111 o'r Ddeddf, os na chaiff y gosb ariannol ei thalu cyn neu ar y dyddiad a bennwyd, bydd swm y gosb y mae'n ofynnol ei thalu o dan yr amod yn cynyddu 50%.

9.38 Os na thelir y gosb a gynyddwyd o fewn y cyfnod o 21 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl y dyddiad a bennwyd, gellir cofrestru swm y gosb a gynyddwyd gyda'r Llys er mwyn cymryd camau gorfodi yn erbyn y troseddwr drwy osod dirwy.

9.39 Dylid cofnodi'r ffaith bod Rhybuddiad Cymunedol wedi'i roi ac nad oedd y troseddwr wedi cydymffurfio ag ef.

**Pwerau arestio a chadw yn y ddalfa**

9.40 O dan adran 106 o'r Ddeddf, os oes sail resymol gan Gwnstabl Heddlu dros gredu bod y troseddwr wedi methu heb esgus rhesymol â chydymffurfio ag unrhyw amod a atodwyd i Rybuddiad Dargyfeiriol, yna gall y Cwnstabl arestio'r troseddwr heb warant. Mae adran 106 yn pennu'r camau pellach y mae'n rhaid eu cymryd wrth arestio.

9.41 Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i'r heddlu ddelio'n effeithiol ag unrhyw doriad, ar yr amod bod meini prawf yr angen i arestio yn PACE a Chod G wedi cael eu bodloni, sef yn yr achos hwn o bosibl, caniatáu ymchwilio effeithiol a dioed i'r drosedd neu i ymddygiad y person dan sylw.

9.42 Unwaith y bydd y troseddwr wedi'i arestio, gellir rhoi awdurdodiad i'w gadw yn y ddalfa os oes angen gwneud hynny er mwyn ymchwilio i weld a yw'r troseddwr wedi methu heb esgus rhesymol â chydymffurfio ag unrhyw amod a atodwyd i'r Rhybuddiad Dargyfeiriol neu er mwyn gofyn am benderfyniad ar gyhuddo gan erlynydd a chyhuddo'r troseddwr yn ffurfiol.

9.43 Lle mae troseddwr wedi'i arestio o dan y pŵer hwn, rhaid:

a) ei gyhuddo am y drosedd wreiddiol dan sylw, neu

b) ei ryddhau heb ei gyhuddo. Os caiff ei ryddhau heb ei gyhuddo, rhaid ei fechnïo os oedd wedi'i ryddhau er mwyn gallu gwneud penderfyniad ar gyhuddo ac os yw'r rhagamodau ar gyfer mechnïo wedi'u bodloni yn unol ag adran 50A o PACE. Ym mhob amgylchiad arall, rhaid ei ryddhau heb ei fechnïo, a gellir gwneud hyn heb amrywio neu ar ôl amrywio'r amodau a atodwyd i'r Rhybuddiad Dargyfeiriol.

9.44 Mae'r pŵer hwn yn darparu hefyd fod yr un broses yn gymwys i droseddwr a fydd, ar ôl ei ryddhau ar fechnïaeth, yn dod i orsaf heddlu i ateb i fechnïaeth neu sydd wedi'i arestio am fethu ag ateb i fechnïaeth yr heddlu. Lle mae troseddwr wedi'i ryddhau ar fechnïaeth, rhaid i Swyddog y Ddalfa hysbysu'r troseddwr ei fod wedi'i ryddhau er mwyn gallu dod i benderfyniad ar gyhuddo.

9.45 Os yw troseddwr yn cael ei drafod o dan yr adran hon, gellir ei gadw yn nalfa'r Heddlu nes bydd wedi'i drafod yn unol â darpariaethau'r adran hon, neu er mwyn pennu amser gwahanol neu ychwanegol ar gyfer ateb i fechnïaeth o dan adran 47(4A) o PACE (fel y'i haddaswyd gan adran 107(3) o'r Ddeddf). Os nad yw'r person mewn cyflwr addas i gael ei drafod, gellir ei gadw yn nalfa'r Heddlu nes bydd mewn cyflwr addas. Mae'r pŵer hwn i gadw rhywun yn y ddalfa yn cynnwys y pŵer i wneud hynny i ddibenion ymchwilio i weld a

yw'r troseddwr wedi methu heb esgus rhesymol â chydymffurfio ag unrhyw amodau. Fodd bynnag, rhaid cyflawni'r broses sydd i'w dilyn ar ôl arestio cyn gynted ag y gellir.

9.46 Os yw troseddwr yn nalfa'r Heddlu mewn perthynas â mater heblaw methiant i gydymffurfio ag amod, nid oes angen ei ryddhau os yw'n atebol i gael ei gadw ymhellach mewn perthynas â'r mater arall hwnnw.

9.47 Nid oes pwerau arestio neu gadw yn y ddalfa mewn perthynas â'r Rhybuddiad Cymunedol.

**Amrywio amodau**

9.48 Mae person awdurdodedig neu awdurdod erlyn yn gallu amrywio'r amodau a atodwyd i Rybuddiad Dargyfeiriol neu Rybuddiad Cymunedol, ar ôl cael cydsyniad gan y troseddwr, drwy amrywio neu hepgor unrhyw amod neu ychwanegu amod. Gellir gwneud y cais i amrywio amodau gan y penderfynwr neu gan y troseddwr ei hun.

9.49 Lle mae'r troseddwr yn gwrthod derbyn amodau a amrywiwyd am ei fod o'r farn eu bod yn afresymol, gall y penderfynwr benderfynu caniatáu i'r rhybuddiad aros fel yr oedd fel y gall y troseddwr gydymffurfio â'r amodau gwreiddiol.

9.50 Rhaid cofnodi unrhyw newid yn yr amodau a'i egluro i'r troseddwr gan y person awdurdodedig. Dylid llunio dogfen yn amlinellu'r amodau fel y maent o'r pwynt hwnnw ymlaen a rhaid iddi gael ei llofnodi gan berson awdurdodedig a chan y troseddwr i ddangos ei fod yn derbyn yr amodau newydd.

9.51 Mae'n bwysig bod dogfen o'r fath yn gyson â'r gofynion a nodwyd yn Rhan 9.20 o'r Cod hwn. Dylid delio ag unrhyw anghydffurfio â'r amodau newydd neu ddiwygiedig yn unol â'r un broses sy'n gymwys i anghydffurfio â'r amodau gwreiddiol, yn ôl y math o rybuddiad a roddwyd.

**Tynnu'n ôl o amodau**

9.52 Gall troseddwr dynnu'n ôl o un neu ragor o'r amodau a atodwyd i rybuddiad ar ôl ei weinyddu. Lle mae hyn yn digwydd, dylai'r penderfynwr ystyried a fydd yr ymddygiad hwn yn cael ei drin fel anghydffurfiaeth a pha gamau y dylid eu cymryd mewn perthynas â'r drosedd wreiddiol, yn ôl y math o rybuddiad a roddwyd.

9.53 Lle mae'r troseddwr yn dymuno tynnu'n ôl o un neu ragor o'r amodau, dylai'r troseddwr hysbysu'r penderfynwr neu'r asiantaeth sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth. Wedyn dylai'r penderfynwr ystyried pa gamau y dylid eu cymryd yn ôl y math o rybuddiad a roddwyd.

9.54 Lle rhoddwyd rhybuddiad am nifer o droseddau, rhaid i'r penderfynwr hefyd benderfynu pa gamau i'w cymryd gyda'r troseddwr ar gyfer un neu'r cyfan o'r troseddau. Mae hyn yn neilltuol o berthnasol mewn achosion o gydymffurfiaeth rannol, lle gallai'r

troseddwr fod wedi cwblhau un o'r amodau a oedd yn ymwneud â throsedd benodol, ond nid un arall.

9.55 Os rhoddwyd Rhybuddiad Dargyfeiriol, yna gallai fod yn briodol erlyn hefyd am y troseddau y mae'r troseddwr heb gydymffurfio mewn perthynas â nhw os yw hynny er budd y cyhoedd. Os rhoddwyd Rhybuddiad Cymunedol, yna dylai'r penderfynwr ystyried a fydd budd y cyhoedd wedi'i gyflawni drwy gwblhau amodau sy'n ymwneud ag un o'r troseddau, neu a oes angen cymryd camau pellach i ddad-wneud yr amodau sy'n ymwneud â throseddau eraill ac atodi cosb ariannol.

9.56 Lle bo'n berthnasol, dylid ymgynghori â'r dioddefwr. Gall hyn fod yn neilltuol o bwysig mewn achosion lle'r oedd y dioddefwr wedi profi effaith nifer o droseddau.

## Rhan 10: Cofnodion troseddol

10.1 Mae'r adran hon o'r Cod yn amlinellu pa wybodaeth a fydd yn ymddangos yn dilyn gwiriad cofnodion troseddol ar gyfer unigolyn, neu fel arall, o dan y gyfraith, ar yr hyn a elwir yn dystysgrif euogfarnau troseddol. Mae'r rheolau ar ddatgelu cofnodion troseddol wedi'u hegluro'n fanylach yng nghanllaw hidlo'r Llywodraeth ar gyfer y DBS, sydd ar gael ar-lein yn https://www.gov.uk/government/publications/dbs-filtering-guidance/dbs-filtering-guide.

10.2 Yn achos y rhan fwyaf o rybuddiadau ac euogfarnau, ceir 'cyfnod disbyddu'. Hwn yw'r cyfnod lle bydd yn ofynnol i rywun ddatgelu rhybuddiad neu euogfarn pan ofynnir iddo, er enghraifft, wrth wneud cais am swydd gyflogedig. Bydd y wybodaeth sy'n ymddangos ar dystysgrif cofnodion troseddol yn gyson â'r wybodaeth y mae'n ofynnol iddo ei datgelu.

10.3 Bernir bod y Rhybuddiad Dargyfeiriol wedi'i ddisbyddu ar ôl tri mis oddi ar y dyddiad y'i rhoddwyd, neu'n gynharach, lle mae amodau'r rhybuddiad wedi'u bodloni.

10.4 Bydd y Rhybuddiad Cymunedol wedi'i ddisbyddu ar unwaith wrth ei roi.

10.5 Os bydd troseddwr yn gwneud cais am rôl nad yw'n un sensitif a bod gwiriad cofnodion troseddol sylfaenol yn cael ei gyflawni, ni fydd yn gorfod datgelu iddo gael Rhybuddiad Cymunedol ar unrhyw bwynt, oherwydd bernir bod y rhybuddiad wedi'i ddisbyddu ar unwaith wrth ei roi.

10.6 Byddai'n ofynnol i droseddwr ddatgelu Rhybuddiad Dargyfeiriol o dan wiriad sylfaenol am hyd at dri mis yn dilyn y dyddiad y'i rhoddwyd, neu'n gynharach, os yw wedi bodloni amodau'r rhybuddiad a'i fod wedi'i ddisbyddu. Mae hyn yn unol â Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 ac adran 112 o Ddeddf yr Heddlu 1997.

10.7 Os bydd y troseddwr yn gwneud cais am swydd mewn rôl sensitif, bydd hawl gan y cyflogwr i ofyn am wiriad cofnodion troseddol safonol neu fanylach. Bydd y gwiriad hwn yn

dangos manylion yr holl euogfarnau a rhybuddiadau sydd heb eu disbyddu, a rhai rhybuddiadau ac euogfarnau sydd wedi'u disbyddu os nad ydynt wedi cael eu hidlo.

10.8 Bydd Rhybuddiadau Dargyfeiriol a Rhybuddiadau Cymunedol yn cael eu hidlo ac ni fydd angen eu datgelu chwe blynedd ar ôl eu rhoi. Yr unig eithriad i hyn yw os rhoddwyd y naill fath o rybuddiad neu'r llall mewn perthynas â throsedd benodedig, na fydd byth yn cael ei hidlo, fel y bydd angen ei datgelu bob amser. Mae rhestr o'r troseddau perthnasol ar gael yma: https://www.gov.uk/government/publications/dbs-list-of-offences-that-will-never-be-filtered-from-a-criminal-record-check.

10.9 Mae'n bwysig nodi na ddylid cymysgu rhwng y rhestr hon a rhoddi Rhybuddiad Dargyfeiriol am droseddau ditiadwy yn unig mewn amgylchiadau eithriadol a gaiff ei awdurdodi gan benderfynwr ar radd Arolygydd neu radd uwch, ac ar ôl cael cydsyniad gan y DPP sydd wedi'i ddirprwyo i benderfynwr y CPS.

10.10 Mae dulliau datrys ffurfiol, fel rhybuddiadau, yn ffyrdd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol sydd i'w cofnodi ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu. Felly dylai'r penderfynwr ystyried a fydd ymateb llai ffurfiol yn fwy priodol.

## Rhan 11: Craffu a thryloywder

**Cadw data**

11.1 Yn unol â'r gofynion presennol ar ddata a bennwyd gan y Swyddfa Gartref, rhaid i'r Heddlu gofnodi a chadw cofnodion o Rybuddiadau Dargyfeiriol a Chymunedol a roddwyd a'r drosedd y cawsant eu rhoi ar ei chyfer. Rhaid iddynt hefyd gadw cofnodion o amodau a atodwyd, ynghyd â chofnodion am gydymffurfiaeth gan droseddwyr. Dylid cofnodi demograffeg troseddwyr yn ôl oed, rhywedd ac ethnigrwydd.

11.2 Pan wneir cais, ac o fewn y cyfnodau a gytunwyd rhyngddynt, dylid trefnu i'r data hyn fod ar gael i'r Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi i ddibenion ymchwilio, dadansoddi neu arolygu.

11.3 Dylai awdurdodau erlyn eraill hefyd gofnodi a chadw'r data hyn i ddibenion arolygu yn unol â'u polisïau mewnol neu unrhyw ganllawiau a gafwyd gan Arolygiaeth berthnasol.

**Craffu**

11.4 Mae'r defnydd o DTALlau yn galw ar heddluoedd ac awdurdodau erlyn i fod yn agored, yn dryloyw ac yn atebol yn eu penderfyniadau.

11.5 Dylai panel craffu fod wedi'i sefydlu gan bob heddlu yng Nghymru a Lloegr. Mae canllawiau a gyhoeddwyd gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer y paneli hyn. Dylai'r Heddlu gydymffurfio â'r canllawiau hyn.

11.6 Er mwyn gwella hyder y cyhoedd yn y defnydd o DTALlau, rhaid i'r Heddlu ac awdurdodau erlyn eraill fod yn dryloyw ynghylch y defnydd ohonynt, gan gynnwys lle gwnaed penderfyniadau amhriodol, a gwersi a ddysgwyd er mwyn gwella penderfyniadau yn y dyfodol.

11.7 Mae'r paneli hefyd yn cyflawni swyddogaeth bwysig o ran canfod a fyddai penderfyniadau wedi gallu cyfrannu at anghymesuredd wrth gymryd camau gorfodi yn erbyn troseddwyr sy'n perthyn i grwpiau ethnig leiafrifol, troseddwyr benywaidd, neu'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig eraill.

11.8 Yn dilyn cyfarfod o banel craffu (boed yn banel cyffredinol neu'n banel thematig), rhaid i'r heddlu gyhoeddi adroddiad crynodeb ysgrifenedig am ganfyddiadau'r cyfarfod. Rhaid cyhoeddi hwn o fewn cyfnod rhesymol ac mewn fformat a lle sy'n hygyrch i'r cyhoedd, a all fod ar wefan yr heddlu.

11.9 Ni chaiff y canfyddiadau hyn gynnwys unrhyw fanylion sy'n dangos pwy yw unrhyw droseddwr, dioddefwr neu dyst a drafodir yn ystod cyfarfod y panel, ond rhaid iddynt gynnwys digon o fanylion i'r cyhoedd ddeall beth oedd:

a) nifer a mathau'r achosion a adolygwyd, yn cynnwys y canlyniad i benderfyniad y panel o ran priodoldeb y datrysiad a roddwyd; a

b) y gwersi a ddysgwyd a pha gamau a gymerwyd i newid proses neu ddiwylliant presennol o fewn yr heddlu hwnnw, yn cynnwys sut y deliwyd ag unrhyw anghysondeb o ran penderfynu.

11.10 Yn ogystal â phaneli craffu allanol, dylai heddluoedd roi ystyriaeth hefyd i fathau eraill o atebolrwydd mewnol. Gall hyn gynnwys samplu ar hap neu archwilio penderfyniadau yn yr heddlu ar ôl gwneud y penderfyniad. Gellir gwneud hyn drwy adolygu sampl o benderfyniadau ar DTALlau, neu bob un ohonynt, gan swyddogion ar radd uwch neu rai mewn tîm gwahanol er mwyn sicrhau eu bod yn addas ac yn gyson â'r Cod hwn, unrhyw ganllawiau gan y Cyfarwyddwr, a pholisi'r heddlu hwnnw.

## Rhan 12: Materion yn codi ar ôl gweinyddu

12.1 Nid oes hawl ffurfiol i apelio yn erbyn gweinyddu rhybuddiad unwaith y bydd wedi'i dderbyn gan y troseddwr a'i weinyddu gan y defnyddiwr awdurdodedig. Er hynny, fe ellir ei herio drwy wneud cwyn yn erbyn yr heddlu neu awdurdod erlyn a'i gweinyddodd.

# Atodiad A – Cymharu datrysiadau

| Datrysiad | Rhybuddiad Dargyfeiriol | Rhybuddiad Cymunedol | Datrysiad Cymunedol |
|---|---|---|---|
| **Math** | Statudol – wedi'i sefydlu drwy ddeddfwriaeth | Statudol – wedi'i sefydlu drwy ddeddfwriaeth | Datrysiad anstatudol gan yr Heddlu – cytundeb preifat |
| **Troseddau** | Unrhyw drosedd – yn achos troseddau ditiadwy yn unig, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol ac ar ôl cael cydsyniad y DPP | Yr holl droseddau heblaw troseddau eithriedig – trosedd dditiadwy yn unig, neillffordd neu ddiannod yn unig fel a bennwyd mewn rheoliadau | Trosedd neu ddigwyddiad llai difrifol ar lefel is / troseddau diannod yn unig / rhai troseddau neillffordd a fyddai'n cael eu rhoi ar brawf yn Llys yr Ynadon<br><br>Ni ddylid ei ddefnyddio ar gyfer cam-drin domestig gan bartner personol |
| **Defnyddio Eilwaith** | I'w ystyried fesul achos<br><br>4.2-4.5 o'r Cod Ymarfer hwn | I'w ystyried fesul achos<br><br>4.2-4.5 o'r Cod Ymarfer hwn | Dim hanes perthnasol o droseddu<br><br>Ni roddir Datrysiad Cymunedol am yr un drosedd neu drosedd debyg o fewn 12 mis oni bai fod amgylchiadau eithriadol |

| Datrysiad | Rhybuddiad Dargyfeiriol | Rhybuddiad Cymunedol | Datrysiad Cymunedol |
|---|---|---|---|
| **Amodau** | • Adsefydlu<br>• Gwneud iawn<br>• Cyfiawnder Adferol<br>• Cosb ariannol<br>• Amodau troseddwr tramor | • Adsefydlu<br>• Gwneud iawn<br>• Cyfiawnder Adferol<br>• Cosb ariannol | • Ymddiheuro<br>• Unioni (Gwneud iawn)<br>• Digolledu<br>• Dargyfeirio – addysg/adsefydlu |
| **Camau Gorfodi os caiff ei dorri** | • Pŵer arestio<br>• Gellir erlyn | • Dim pŵer arestio<br>• Ni ellir erlyn<br>• Dad-wneud amod gwreiddiol ac atodi cosb ariannol<br>• Os na chaiff ei thalu, gellir ei chodi fel dirwy mewn Llys | • Dim |
| **Gofyniad am Dystiolaeth** | Tystiolaeth ddigonol i gyhuddo | Tystiolaeth ddigonol i gyhuddo | Amheuaeth resymol bod trosedd neu ddigwyddiad wedi digwydd |
| **Penderfynwr** | Yr Heddlu neu'r CPS (rhaid cyfeirio troseddau ditiadwy yn unig i'r CPS) | Yr Heddlu neu'r CPS | Yr Heddlu |
| **Addefiad** | Cyfaddef euogrwydd | Cyfaddef euogrwydd | Derbyn cyfrifoldeb |

| **Datrysiad** | **Rhybuddiad Dargyfeiriol** | **Rhybuddiad Cymunedol** | **Datrysiad Cymunedol** |
|---|---|---|---|
| **Cydsyniad y Troseddwr** | Ie | Ie | Ie |
| **Cydsyniad / Cynnwys y Dioddefwr** | • Gwneud ymdrech resymol i gael barn y dioddefwr<br>• Gellir galw'r dioddefwr i roi tystiolaeth (os torrir y rhybuddiad ac os erlynir y troseddwr) | • Gwneud ymdrech resymol i gael barn y dioddefwr<br>• Dim gofynion pellach i'r dioddefwr unwaith y rhoddir Rhybuddiad Cymunedol – ni fyddai'n gorfod rhoi tystiolaeth am na ellir erlyn yn yr achos | • Ie, ond gellir ei roi heb gael hyn (os bydd y goruchwyliwr yn cytuno)<br>• Dim gofynion pellach i'r dioddefwr unwaith y rhoddir Datrysiad Cymunedol |

| Datrysiad | Rhybuddiad Dargyfeiriol | Rhybuddiad Cymunedol | Datrysiad Cymunedol |
|---|---|---|---|
| **Cofnod Troseddol / DBS** | • Disbyddu ar ôl 3 mis (yn yr un modd â Rhybuddiad Amodol, neu’n gynt os bodlonir yr amod(au))<br>• Dangos Rhybuddiad Dargyfeiriol ar wiriad sylfaenol am 3 mis os nad oedd wedi’i ddisbyddu<br>• Datgelu Rhybuddiad Dargyfeiriol os oedd heb ei ddisbyddu neu am hyd at 6 blynedd ar wiriad safonol neu fanylach lle mae’r unigolyn yn gwneud cais am swydd neu weithgarwch sensitif | • Ei ddisbyddu ar unwaith<br>• Ni fyddai Rhybuddiadau Cymunedol byth yn ymddangos ar y gwiriad cofnodion troseddol sylfaenol am eu bod yn cael eu disbyddu ar unwaith, a dim ond materion heb eu disbyddu sy’n ymddangos ar wiriadau o’r fath<br>• Byddai Rhybuddiad Cymunedol yn cael ei ddatgelu am hyd at 6 blynedd mewn gwiriadau safonol neu fanylach lle mae’r person yn bwriadu cyflawni swydd neu weithgarwch sensitif | • Nid yw’n rhan o gofnod troseddol ond gellir ei ddatgelu yn rhan o wiriad DBS manylach<br>• Gall Datrysiad Cymunedol ymddangos ar wiriad manylach lle mae’r person yn bwriadu cyflawni swydd neu weithgarwch sensitif |
| **Cadw cofnodion** | System Rheoli Cofnodion yr Heddlu / PNC | System Rheoli Cofnodion yr Heddlu / PNC | System Rheoli Cofnodion yr Heddlu |

# Atodiad B – Egwyddorion ar gyfer Rhybuddiadau Dargyfeiriol Cam-drin Domestig

## Rhagamodau

**1 – Bod yr heddlu yn cytuno i gydymffurfio â'r canllawiau hyn a gytunwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y CPS a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu** (yn ymdrin â mathau o drosedd, lefelau risg, amodau priodol, y defnydd o Gyfiawnder Adferol a Datrysiadau Cymunedol etc.). Yn benodol, dylai'r heddlu sicrhau ar gyfer yr holl droseddau cam-drin domestig:

a) Bod y troseddwr wedi gwneud addefiad llawn ac nad yw wedi codi'r posibilrwydd o amddiffyniad, er enghraifft, hunanamddiffyn mewn achos o ymosod, a bod y penderfynwr yn teimlo y byddai'r unigolyn yn cael budd o ganlyniad o'r fath.

b) Bod y troseddwr yn derbyn cyfrifoldeb llwyr.

c) Nad yw'r troseddwr wedi cael euogfarnau neu rybuddiadau blaenorol am gam-drin domestig yn y ddwy flynedd blaenorol; caniateir euogfarnau blaenorol am droseddau llai oni bai fod y troseddwr yn cwblhau dedfryd neu Orchymyn yn y gymuned ar y pryd; rhaid iddo beidio â bod yn destun i ymchwiliad gan yr Heddlu neu wedi'i ryddhau ar fechnïaeth am drosedd arall; nad oes ganddo hanes o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn y berthynas hon nac mewn perthnasoedd eraill.

d) Nad yw'r troseddwr wedi cyflawni trosedd ddifrifol. Y man cychwyn ar gyfer asesu difrifoldeb yw ystyried beth fyddai'r gosb debygol pe byddai'r mater yn mynd i'r llys. Os yw amgylchiadau'r drosedd yn dangos mai dedfryd o garchar yn syth neu Orchymyn Cymunedol lefel uchel fydd y ddedfryd briodol, yna ni ddylid cynnig rhybuddiad.

e) Bod dymuniadau datganedig y dioddefwr yn cael eu bodloni drwy ddilyn y llwybr hwn ar ôl darparu esboniad llawn i'r dioddefwr o'r holl opsiynau a'u canlyniadau. Fodd bynnag, bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud bob amser gan oruchwylydd yr Heddlu neu'r CPS.

f) Nad oes tystiolaeth o ymddygiad gorfodaethol neu reolaethol, stelcio neu aflonyddu ar ran yr un dan amheuaeth o fewn y berthynas (i'w gadarnhau lle bo modd gan wasanaethau cymorth).

g) Bod DASH, DARA neu offeryn arall ar gyfer asesu risg yn dangos nad yw lefel y risg i ddiogelwch y dioddefwr a/neu'r teulu yn uwch na'r dosbarth "safonol".

h) Bod yr amodau a osodwyd ar gyfer y datrysiad dan sylw yn gyson â'r rheini sydd wedi'u nodi'n addas ac yn dderbyniol gan yr Arweinydd Heddlu Cenedlaethol ar Gam-drin Domestig. Bod yr amodau hyn yn pennu bod ymyriadau ar gyfer y cyflawnydd yn gorfod cynnwys y prif elfennau adsefydlu a ddefnyddiwyd yn Project CARA (Cautioning and Relationship Abuse).

**Adolygir y canllawiau hyn a'u diwygio o bryd i'w gilydd yng ngoleuni profiad yr heddluoedd.**

**2 – Asesu Risg a dewis achosion**

a) Dylid cysylltu â'r dioddefwr, a dylai asesiad risg gael ei gwblhau gan swyddog hyfforddedig. Rhaid sicrhau drwy'r meini prawf ar gyfer y math o achos nad oes rheolaeth drwy orfodaeth sy'n effeithio ar benderfyniadau gan y dioddefwr.

b) Rhaid i heddluoedd gymryd camau cadarn i asesu risg ac ni ddylent ddefnyddio Rhybuddiadau Dargyfeiriol heblaw mewn achosion lle mae DASH, DARA neu offeryn arall ar gyfer asesu risg yn dangos nad yw lefel y risg i ddiogelwch y dioddefwr a/neu'r teulu yn uwch na'r dosbarth "safonol".

**3 – Penderfynu**

Rhaid i Rybuddiadau Dargyfeiriol Cam-drin Domestig fod yn gyson hefyd â deddfwriaeth a'r Cod Ymarfer hwn. Felly bydd y rheini sy'n cymeradwyo Rhybuddiad Dargyfeiriol cam-drin domestig yn Swyddog Heddlu ar radd nad yw'n is na gradd Rhingyll. Rhaid iddynt hefyd fod â phrofiad perthnasol o gam-drin domestig, gyda gwybodaeth / profiad priodol, set sgiliau a mynediad at wybodaeth am ymyriadau ar gyfer cyflawnwyr ac ymyriadau eraill sydd ar gael. Dylai'r person awdurdodedig gael sicrwydd bod yr asesiad risg cychwynnol yn gywir a bod cynllun rheoli risg wedi'i roi ar waith. Gellir cynnwys arbenigwyr eraill wrth argymell amodau addas, os yw'r penderfynwr yn unol â'r disgrifiad uchod.

**4 – Mathau o amod**

Rhaid i heddluoedd gynnig nifer o wahanol amodau:

a) Ar gyfer achosion o gam-drin gan bartner personol, rhaid canolbwyntio ar adsefydlu cyflawnwyr cam-drin domestig a rhaid i ymyriad ar gyfer cyflawnwyr fod ar gael a chael ei ddefnyddio (ni chaiff fod yn ymyriad rheoli dicter cyffredinol; rhaid iddo fod yn ymyriad pwrpasol ar gyfer cam-drin domestig). Er hynny, derbynnir nad rhaglen ar gyfer cyflawnwyr fydd yr ymyriad mwyaf priodol bob amser ar gyfer troseddwr benywaidd. Yn yr achos hwn, mae'n bosibl y bydd ymyriad ar gyfer menywod yn ddewis mwy addas a gellir ystyried hyn fesul achos.

b) Ar gyfer cyflawnwyr cam-drin gan bartner agos, dylid sicrhau ansawdd unrhyw ymyriad cysylltiedig, dylai fod yn seiliedig ar dystiolaeth a dylai gynnwys trefniadau clir ar gyfer gwerthuso/asesu parhaus. Dylai'r trefniadau hyn fod yn ddigon cadarn i gyfrannu i sylfeini tystiolaeth cenedlaethol a lleol am effaith yr ymyriad ar amlder a niwed o ganlyniad i droseddu, a risg i'r dioddefwr, nes bydd digon o dystiolaeth o blaid parhau i'w ddefnyddio a'i gyflwyno ar lefel genedlaethol. Dylai ymyriadau ar gyfer cyflawnwyr fod yn rhai sy'n cynnwys y prif elfennau a ddefnyddiwyd yn Project CARA sef egwyddorion a phrosesau cyf-weld ysgogiadol, cefnogaeth gan gymheiriaid, herio gan gymheiriaid, canolbwyntio ar y dioddefwr, canolbwyntio ar y troseddwr, meithrin cydberthynas, peidio â chywilyddio, gwrando a chwestiynu.

c) Ar gyfer perthnasoedd rhwng rhai nad ydynt yn bartneriaid personol, os nad oes elfen o ymddygiad rheolaeth drwy orfodaeth, dylid ystyried cynnig dargyfeiriad adsefydlu priodol a fyddai, yn wahanol i achosion rhwng partneriaid personol, yn gallu cynnwys ymyriad rheoli dicter neu ymyriad priodol arall.

d) Ar gyfer yr holl ddigwyddiadau, dylai heddluoedd hefyd ystyried y posibilrwydd o gyfeirio/atgyfeirio i wasanaethau eraill (e.e. cymorth cyffuriau, alcohol neu ariannol), yn ogystal ag adsefydlu sy'n ymwneud yn benodol â cham-drin domestig.

e) Gellir cael amodau cyfyngol ac amodau i wneud iawn hefyd. Ar gyfer achosion cam-drin gan bartner personol, rhaid PEIDIO â chynnwys elfen ariannol gosbol mewn amodau.

f) Ni fydd Cyfiawnder Adferol (CA) byth yn addas ar gyfer achosion cam-drin domestig gan bartner personol.

g) Mewn achosion lle nad oes perthynas rhwng partneriaid personol, na hanes o hynny, ac nad yw'r troseddau yn cynnwys trais, stelcio, aflonyddu neu droseddau rhywiol, gellir ystyried cynnwys CA mewn Rhybuddiad Dargyfeiriol os bodlonir meini prawf penodol:

- Dim ond fel eithriad y dylid ei ddefnyddio, lle mae'r alwad yn un ar wahân ac nad oes hanes neu bryder blaenorol. Dylai'r digwyddiad fod ar lefel isel iawn hefyd, fel difrod troseddol bach neu ddwyn.

- Dim ond ar ôl cynnal asesiad risg trwyadl o achosion gan swyddogion arbenigol, sydd wedi'u hyfforddi ac wedi cael profiad o ddelio â cham-drin domestig y dylid ystyried cynnig CA (ni fyddai cyfarfod CA 'yn y fan a'r lle' neu 'ar y stryd' yn briodol). Lle mae heddluoedd yn defnyddio opsiynau CA, dylai achosion gael eu hadolygu'n rheolaidd hefyd gan swyddogion arbenigol.

- Rhaid i heddluoedd sicrhau bod polisi a gweithdrefn glir ar gael a dylid rhoi ystyriaeth fanwl i'r lefelau awdurdod ar gyfer cymeradwyo'r defnydd ohono h.y. Arolygydd Diogelu'r Cyhoedd Arbenigol a graddau uwch.

- Rhaid i unrhyw swyddog/person sy’n cynnal y broses CA fod wedi cael hyfforddiant hwylusydd achrededig (hyfforddiant dros 3-5 diwrnod) a hyfforddiant arbenigol os oes modd ar ddelio â throseddau o’r math hwn.

**5 – Monitro Cydymffurfiaeth**

Rhaid bod proses gadarn a chywir ar waith i fonitro ac adrodd ar gydymffurfiaeth ag amodau. Wrth gomisiynu gwasanaethau, dylid cynnwys gofyniad yn y cytundeb lefel gwasanaeth i gyflenwr y gwasanaeth ddarparu gwybodaeth ddibynadwy ac archwiliadwy am gydymffurfiaeth i’r Heddlu.

**6 – Casglu Data**

Rhaid i heddluoedd gofnodi a chadw data digonol yn unol â Rhan 11 o’r Cod Ymarfer. Gwneir hyn er mwyn gofalu bod modd parhau i fonitro cyfraddau aildroseddu a niwed o droseddu i sicrhau bod rhybuddiadau dargyfeiriol yn aros yn ymateb effeithiol i leihau niwed ac aildroseddu.

**7 – Trefniadau Craffu**

Dylid sefydlu panel craffu annibynnol a fydd yn cynnwys aelodau i gynrychioli barn pob rhan o’r system cyfiawnder troseddol (er enghraifft, ynadon a’r CPS) a chynrychiolaeth annibynnol gan grŵp cynghorol a fydd yn cwrdd yn rheolaidd i adolygu canran a gytunir o achosion trais (cam-drin) domestig.

# Atodiad C – Troseddau eithriedig penodedig

Pennwyd bod y troseddau neillffordd canlynol wedi'u heithrio ar gyfer Rhybuddiadau Dargyfeiriol neu Gymunedol, i ddibenion adran 98(6)(b) neu (c) o Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022:

<u>Troseddau arf ymosodol ac eitem lafnog</u>

- Bod ag arf ymosodol mewn lle cyhoeddus, yn groes i adran 1(1) o Ddeddf Atal Troseddu 1953
- Bygwth person arall ag arf ymosodol mewn lle cyhoeddus, yn groes i adran 1A(1) o Ddeddf Atal Troseddu 1953
- Bod ag eitem lafnog neu bigfain mewn lle cyhoeddus, yn groes i adran 139(1) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988
- Bod ag eitem lafnog neu bigfain mewn mangreoedd ysgol, yn groes i adran 139A(1) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988
- Bod ag arf ymosodol mewn mangreoedd ysgol, yn groes i adran 139A(2) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988
- Bygwth person arall ag eitem lafnog neu bigfain mewn lle cyhoeddus neu mewn mangre ysgol, neu fygwth person arall ag arf ymosodol mewn mangre ysgol, yn groes i adran 139AA(1) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988

<u>Cario arf tanio mewn lle cyhoeddus</u>

1. Bod ag arf tanio mewn lle cyhoeddus, yn groes i adran 19 o Ddeddf Arfau Tanio 1968, lle cyflawnwyd y drosedd mewn perthynas ag arf tanio o fewn ystyr adran 57(1) o'r Ddeddf honno a'i bod yn drosedd neillffordd (gweler Atodlen 6 i Ddeddf Arfau Tanio 1968)

<u>Creulondeb tuag at blant</u>

2. Creulondeb tuag at blant, yn groes i adran 1(1) o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933

<u>Troseddau rhywiol yn erbyn plant (yn cynnwys y rheini sy'n ymwneud â phuteindra a phornograffi plant)</u>

3. Ymosod rhywiol, yn groes i adran 3(1) o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003, lle'r oedd dioddefwr y drosedd o dan 16 oed ar adeg y drosedd

4. Peri i berson gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol heb gydsyniad, yn groes i adran 4(1) a (5) o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (h.y. nid yn cynnwys y gweithgareddau treiddiol a bennwyd yn adran 4(4) o'r Ddeddf honno), lle'r oedd dioddefwr y drosedd o dan 16 oed ar adeg y drosedd

5. Ymosod yn rhywiol ar blentyn dan 13 oed, yn groes i adran 7(1) o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003

6. Peri neu ysgogi plentyn dan 13 oed i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol, yn groes i adran 8(1) a (3) o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (h.y. nid yn cynnwys y gweithgareddau treiddiol a bennwyd yn adran 8(2) o'r Ddeddf honno)

7. Gweithgarwch rhywiol gyda phlentyn, yn groes i adran 9(1) a (3) o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (h.y. nid yn cynnwys y gweithgareddau treiddiol a bennwyd yn adran 9(2) o'r Ddeddf honno)

8. Peri neu ysgogi plentyn i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol, yn groes i adran 10(1) a (3) o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (h.y. nid yn cynnwys y gweithgareddau treiddiol a bennwyd yn adran 10(2) o'r Ddeddf honno)

9. Cymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol ym mhresenoldeb plentyn, yn groes i adran 11(1) o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003

10. Peri i blentyn wylio gweithred rywiol, yn groes i adran 12(1) o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003

11. Trefnu neu hwyluso cyflawni trosedd rhyw plant, yn groes i adran 14(1) o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003

12. Cwrdd â phlentyn yn dilyn paratoi i bwrpas rhyw, yn groes i adran 15(1) o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003

13. Gweithgarwch rhywiol gyda phlentyn gan gamfanteisio ar safle o ymddiriedaeth, yn groes i adran 16(1) o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003

14. Peri neu ysgogi plentyn i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol gan gamfanteisio ar safle o ymddiriedaeth, yn groes i adran 17(1) o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003

15. Cymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol ym mhresenoldeb plentyn gan gamfanteisio ar safle o ymddiriedaeth, yn groes i adran 18(1) o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003

16. Peri i blentyn wylio gweithred rywiol gan gamfanteisio ar safle o ymddiriedaeth, yn groes i adran 19(1) o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003

17. Gweithgarwch rhywiol gydag aelod o’r teulu sy’n blentyn a gyflawnwyd gan berson a oedd yn 18 oed neu’n hŷn ar adeg y drosedd, yn groes i adran 25(1) a (4)(b) o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (h.y. nid yn cynnwys y gweithgareddau treiddiol a bennwyd yn adran 25(6) o’r Ddeddf honno)

18. Gweithgarwch rhywiol gydag aelod o’r teulu sy’n blentyn a gyflawnwyd gan berson a oedd o dan 18 oed ar adeg y drosedd, yn groes i adran 25(1) a (5) o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003

19. Ysgogi aelod o’r teulu sy’n blentyn i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol a gyflawnwyd gan berson a oedd yn 18 oed neu’n hŷn ar adeg y drosedd, yn groes i adran 26(1) a (4)(b) o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (h.y. nid yn cynnwys y gweithgareddau treiddiol a bennwyd yn adran 26(6) o’r Ddeddf honno)

20. Ysgogi aelod o’r teulu sy’n blentyn i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol a gyflawnwyd gan berson a oedd o dan 18 oed ar adeg y drosedd, yn groes i adran 26(1) a (5) o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003

21. Talu am wasanaethau rhywiol plentyn lle’r oedd dioddefwr y drosedd o dan 16 oed ar adeg y drosedd, yn groes i adran 47(1) a (4)(b) o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (h.y. nid yn cynnwys dioddefwr a oedd o dan 13 oed ar adeg y drosedd neu’r gweithgareddau treiddiol a bennwyd yn adran 47(6) o’r Ddeddf honno)

22. Talu am wasanaethau rhywiol plentyn lle’r oedd dioddefwr y drosedd yn 16 oed neu’n hŷn ar adeg y drosedd, yn groes i adran 47(1) a (5) o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003

23. Peri neu ysgogi puteindra neu bornograffi plant, yn groes i adran 48(1) o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003

24. Rheoli putain sy’n blentyn neu blentyn sy’n ymwneud â phornograffi, yn groes i adran 49(1) o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003

25. Trefnu neu hwyluso puteindra neu bornograffi plant, yn groes i adran 50(1) o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003

26. Ymosod yn anweddus ar fenyw, yn groes i adran 14(1) o Ddeddf Troseddau Rhywiol 1956, lle’r oedd dioddefwr y drosedd o dan 16 oed ar adeg y drosedd

27. Ymosod yn anweddus ar ddyn, yn groes i adran 15(1) o Ddeddf Troseddau Rhywiol 1956, lle’r oedd dioddefwr y drosedd o dan 16 oed ar adeg y drosedd

28. Ymddygiad anweddus gyda neu tuag at blentyn, yn groes i adran 1(1) o Ddeddf Anwedduster gyda Phlant 1960

29. Gweithgarwch rhywiol gyda phlentyn gan gamfanteisio ar safle o ymddiriedaeth, yn groes i adran 3(1) o Ddeddf Troseddau Rhywiol (Diwygio) 2000

Troseddau masnachu pobl ar gyfer rhyw

- Masnachu person arall i'r DU ar gyfer camfanteisio rhywiol, yn groes i adran 57(1) o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003
- Masnachu person arall o fewn y DU ar gyfer camfanteisio rhywiol, yn groes i adran 58(1) o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003
- Masnachu person arall allan o'r DU ar gyfer camfanteisio rhywiol, yn groes i adran 59(1) o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003
- Masnachu person arall ar gyfer camfanteisio rhywiol, yn groes i adran 59A(1) o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003
- Masnachu unigolyn i'r DU ar gyfer puteindra, yn groes i adran 145(1) o Ddeddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2002
- Masnachu unigolyn o fewn y DU ar gyfer puteindra, yn groes i adran 145(2) o Ddeddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2002
- Masnachu unigolyn allan o'r DU ar gyfer puteindra, yn groes i adran 145(3) o Ddeddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2002

Delweddau anweddus a phornograffig o blant

- Gwneud etc ffotograffau anweddus o blant, yn groes i adran 1(1) o Ddeddf Amddiffyn Plant 1978
- Meddu ffotograffau anweddus o blant, yn groes i adran 160(1) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988
- Meddu delweddau gwaharddedig o blant, yn groes i adran 62(1) o Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009

Troseddau cyffuriau Dosbarth A

- Cynhyrchu etc cyffur a reolir, yn groes i adran 4(2) o Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971, lle cyflawnwyd y drosedd mewn perthynas â chyffur Dosbarth A a'i bod yn drosedd neillffordd (h.y. nid yn drydedd drosedd masnachu cyffuriau o fewn ystyr adran 110 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000)

- Cyflenwi etc cyffur a reolir, yn groes i adran 4(3) o Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971, lle cyflawnwyd y drosedd mewn perthynas â chyffur Dosbarth A a'i bod yn drosedd neillffordd (h.y. nid yn drydedd drosedd masnachu cyffuriau o fewn ystyr adran 110 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000)

- Meddu cyffur a reolir gyda'r bwriad o'i gyflenwi i un arall, yn groes i adran 5(3) o Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971, lle cyflawnwyd y drosedd mewn perthynas â chyffur Dosbarth A (fel y'i diffiniwyd yn adran 2(1)(b) o Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971) a'i bod yn drosedd neillffordd (h.y. nid yn drydedd drosedd masnachu cyffuriau o fewn ystyr adran 110 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000)

- Mewnforio cyffur a reolir, yn groes i adran 50(2) o Ddeddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979 ac mewn cysylltiad â gwaharddiad sydd mewn grym yn rhinwedd adran 3(1) o Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971, lle cyflawnwyd y drosedd mewn perthynas â chyffur Dosbarth A (fel y'i diffiniwyd yn adran 2(1)(b) o Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971) a'i bod yn drosedd neillffordd (h.y. nid yn drydedd drosedd masnachu cyffuriau o fewn ystyr adran 110 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000)

- Mewnforio cyffur a reolir, yn groes i adran 50(3) o Ddeddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979 ac mewn cysylltiad â gwaharddiad sydd mewn grym yn rhinwedd adran 3(1) o Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971, lle cyflawnwyd y drosedd mewn perthynas â chyffur Dosbarth A (fel y'i diffiniwyd yn adran 2(1)(b) o Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971) a'i bod yn drosedd neillffordd (h.y. nid yn drydedd drosedd masnachu cyffuriau o fewn ystyr adran 110 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000)

- Allforio cyffur a reolir, yn groes i adran 68(2) o Ddeddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979 ac mewn cysylltiad â gwaharddiad sydd mewn grym yn rhinwedd adran 3(1) o Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971, lle cyflawnwyd y drosedd mewn perthynas â chyffur Dosbarth A (fel y'i diffiniwyd yn adran 2(1)(b) o Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971) a'i bod yn drosedd neillffordd (h.y. nid yn drydedd drosedd masnachu cyffuriau o fewn ystyr adran 110 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000)

- Mewnforio neu allforio cyffur a reolir, yn groes i adran 170(1) o Ddeddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979 ac mewn cysylltiad â gwaharddiad sydd mewn grym yn rhinwedd adran 3(1) o Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971, lle cyflawnwyd y drosedd mewn perthynas â chyffur Dosbarth A (fel y'i diffiniwyd yn adran 2(1)(b) o Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971) a'i bod yn drosedd neillffordd (h.y. nid yn drydedd drosedd masnachu cyffuriau o fewn ystyr adran 110 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000)

- Mewnforio neu allforio cyffur a reolir, yn groes i adran 170(2) o Ddeddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979 ac mewn cysylltiad â gwaharddiad sydd mewn grym yn rhinwedd adran 3(1) o Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971, lle cyflawnwyd y drosedd mewn perthynas â chyffur Dosbarth A (fel y'i diffiniwyd yn adran 2(1)(b) o Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971) a'i bod yn drosedd neillffordd (h.y. nid yn drydedd drosedd masnachu cyffuriau o fewn ystyr adran 110 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000)

# Atodiad D – Amodau enghreifftiol

| Gwneud Iawn | Adsefydlu | Adferol | Cosbol | Troseddwr Tramor |
|---|---|---|---|---|
| Atgyweirio neu wneud iawn am golled neu ddifrod i ddioddefwyr neu'r gymuned:<br><br>Atgyweirio difrod a achoswyd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol<br><br>Ymddiheuro, un ai drwy ysgrifennu neu os yw'n briodol yn bersonol<br><br>Gwneud tâl digolledu i ddioddefwr, cymuned neu elusen<br><br>Cyflawni gwaith di-dâl (hyd at **20 awr** ar gyfer **Rhybuddiad Dargyfeiriol** neu **10 awr** ar gyfer Rhybuddiad Cymunedol) | Ymatal rhag neu addasu ymddygiad troseddol drwy ymbresenoli mewn gwasanaeth neu ymyriad sy'n ymwneud â:<br><br>Dibyniaeth ar gyffuriau<br><br>Camddefnyddio alcohol<br><br>Dibyniaeth ar hapchwarae<br><br>Dibyniaeth arall<br><br>Gwasanaeth cynghori ar arian / dyled<br><br>Rheoli dicter<br><br>*(Ni cheir ymbresenoli am fwy nag 20 awr ar gyfer Rhybuddiad Dargyfeiriol neu 10 awr ar gyfer Rhybuddiad Cymunedol)* | Hwyluso cyfathrebu rhwng y dioddefwr a'r troseddwr<br><br>Ymbresenoli mewn cynhadledd cyfiawnder adferol gyda'r dioddefwr, os bydd y ddau barti yn cytuno ar hynny | Cosb ariannol:<br><br>Cosbi lle nad oes amodau priodol eraill, neu os nad yw'r amodau hynny yn darparu ymateb priodol neu gymesur i'r ymddygiad troseddol<br><br>£100 ar gyfer trosedd ddiannod neu neillffordd (Rhybuddiad Dargyfeiriol neu Gymunedol)<br><br>£150 ar gyfer trosedd dditiadwy yn unig (Rhybuddiad Dargyfeiriol yn unig) | *(Yn gymwys i Rybuddiad Dargyfeiriol yn unig)*<br><br>Peri ymadael â'r DU a sicrhau na fydd yn dychwelyd am gyfnod penodedig:<br><br>Ymadael â'r DU cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol a dim hwyrach na (dyddiad penodedig)<br><br>Cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd cyfreithlon i beri symud o'r DU<br><br>Dangos ac ildio dogfen deithio neu hunaniaeth genedlaethol ddilys i UKVI<br><br>Peidio â dychwelyd i'r DU am bum mlynedd yn unol â'r rheolau Mewnfudo ac |

| Gwneud Iawn | Adsefydlu | Adferol | Cosbol | Troseddwr Tramor |
|---|---|---|---|---|
| | | | | wedyn dim ond yn unol â'r rheolau Mewnfudo |
| **Amodau cyfyngol gyda'r amcan o adsefydlu neu wneud iawn:**<br><br>**Peidio â chwrdd neu gyfathrebu ag unigolion penodedig**<br><br>Peidio â bod mewn cyfeiriad penodedig, neu fynd iddo, neu fod o fewn pellter penodedig i le neu ardal yn y Deyrnas Unedig – e.e. cyfeiriad, lle busnes y dioddefwr, lleoliad y drosedd (mangre manwerthu) | Amodau cyfyngol gyda'r amcan o adsefydlu neu wneud iawn:<br><br>Peidio â chwrdd neu gyfathrebu ag unigolion penodedig<br><br>Peidio â bod mewn cyfeiriad penodedig, neu fynd iddo, neu fod o fewn pellter penodedig i le neu ardal yn y Deyrnas Unedig – e.e. cyfeiriad, lle busnes y dioddefwr, lleoliad y drosedd (mangre manwerthu) | | | |

# Atodiad E – Diffiniadau

Ystyr *“awdurdod erlyn”* yw (a) y Twrnai Cyffredinol; (b) y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus; (c) Cyfarwyddwr y Swyddfa Twyll Difrifol; (d) yr Ysgrifennydd Gwladol; (e) person sydd wedi’i bennu mewn rheoliadau

Ystyr *“Canllawiau’r Cyfarwyddwr”* yw canllawiau a ddyroddwyd gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus o dan ddarpariaethau adran 37A o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984

Ystyr *“Cosb Ariannol”* yw amod cosbol sy’n ei gwneud yn ofynnol i’r troseddwr dalu cosb ariannol y gellir ei hatodi i rybuddiad dargyfeiriol neu gymunedol gyda’r amcan o gosbi’r troseddwr

Mae i *“dalfa’r Heddlu”* yr un ystyr ag a roddwyd iddi yn Neddf 1984 (gweler adran 118(2) o’r Ddeddf honno)

Ystyr *“dioddefwr”* mewn perthynas â throsedd yw’r person penodol yr ymddengys iddo brofi effaith neu brif effaith y drosedd.

Ystyr *“Dirwy”* yw dirwy a orfodir gan lys

Ystyr *“Dogfen Rhwymedi Cymunedol”* yw’r Ddogfen Rhwymedi Cymunedol (fel y’i diwygir o bryd i’w gilydd) a gyhoeddwyd o dan adran 101 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 ar gyfer yr ardal heddlu lle cyflawnwyd y drosedd dan sylw

Ystyr *“DTALl”* yw Datrysiad y Tu Allan i’r Llys

Ystyr *“IE”* yw Gorfodaeth Mewnfudo (Asiantaeth Ffiniau’r DU cyn hynny)

Ystyr *“Penderfynwr”* yw un ai’r person awdurdodedig neu’r erlynydd perthnasol y mae’n ofynnol iddo wneud y penderfyniad

Mae i *“person awdurdodedig”* yr ystyr a roddwyd yn adran 98(7) o Ddeddf 2022

Mae *“Rhybuddiad”* yn cyfeirio at rybuddiad dargyfeiriol a chymunedol oni nodwyd rhybuddiad penodol

Ystyr *“swyddog ymchwilio”* yw (a) swyddog Cyllid a Thollau a benodwyd yn unol ag adran 2(1) o Ddeddf y Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005, neu (b) person a ddynodwyd yn swyddog cymorth yr heddlu neu’n wirfoddolwr cymorth yr heddlu o dan adran 38 o Ddeddf Diwygio’r Heddlu 2002

Ystyr *“trosedd dditiadwy yn unig”* yw trosedd, os cyflawnwyd hi gan oedolyn, y gellir ei rhoi ar brawf drwy dditiad yn unig

Mae i *“trosedd eithriedig”* yr ystyr a roddwyd yn adran 98(6)

Ystyr *“y CPS”* yw Gwasanaeth Erlyn y Goron

Ystyr *“y DPP”* yw’r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus

Ystyr *“y Ddeddf”* yw Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a’r Llysoedd 2022

# Holiadur

Byddem yn falch o gael ymatebion i'r cwestiynau canlynol sydd wedi'u cynnwys yn y papur ymgynghori hwn.

1. **A ydych yn 'berson awdurdodedig' yn cynrychioli asiantaeth erlyn sy'n rhoi DTALlau?**

   (Dewiser un: ydw; nac ydw)

   **Os ydych, enwch yr asiantaeth rydych yn ei chynrychioli a nodwch sut bydd y fframwaith newydd yn effeithio arnoch**.

2. **A ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y Cod Ymarfer yn cadw cydbwysedd priodol rhwng darparu fframwaith clir ar gyfer penderfyniadau a hyblygrwydd mewn achosion penodol?**

   (Dewiser un: Cytuno'n gryf; Cytuno; Y naill na'r llall; Anghytuno; Anghytuno'n gryf – eglurwch eich ateb)

3. **A ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y canllawiau ar y berthynas rhwng y Datrysiad Cymunedol, y Rhybuddiad Cymunedol a'r Rhybuddiad Dargyfeiriol, a'r priod ddefnydd ohonynt, yn glir yn y Cod Ymarfer?**

   (Dewiser un: Cytuno'n gryf; Cytuno; Y naill na'r llall; Anghytuno; Anghytuno'n gryf – eglurwch eich ateb)

4. **A ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod pwyslais priodol yn y Cod Ymarfer ar a) cynnwys y dioddefwr? b) bodlonrwydd y dioddefwr?**

   (Ar gyfer rhan a) a rhan b) dewiser un: Cytuno'n gryf; Cytuno; Y naill na'r llall; Anghytuno; Anghytuno'n gryf – eglurwch eich ateb)

5. **Ar gyfer Rhybuddiadau Cymunedol (haen isaf), mae Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 yn pennu y gellir eu rhoi am unrhyw drosedd heblaw trosedd eithriedig (sef trosedd dditiadwy yn unig neu drosedd neillffordd neu drosedd ddiannod yn unig a bennwyd mewn rheoliadau). Rydym wedi cynnig y dylid cadw'r troseddau eithriedig sy'n cyfyngu'r defnydd o Rybuddiadau Syml presennol. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r dull hwn o weithredu?**

   (Dewiser un: Cytuno'n gryf; Cytuno; Y naill na'r llall; Anghytuno; Anghytuno'n gryf)

**Nodwch y troseddau eithriedig rydych yn cynnig eu hychwanegu, eu dileu neu eu diwygio ar gyfer Rhybuddiadau Cymunedol a'r rhesymau dros awgrymu'r rhain.**

6. **Rydym wedi cynnig strwythur cosbau ariannol diwygiedig ar gyfer y rhybuddiadau newydd. Beth yw'ch barn am y strwythur hwn?**

   (Eglurwch eich ateb)

7. **Mewn perthynas â defnyddio rhybuddiadau yr eilwaith, a fyddech yn gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r manylebau arfaethedig sydd wedi'u hamlinellu yn y Cod Ymarfer?**

   (Dewiser un: byddwn; na fyddwn)

   **Os byddech, nodwch y newidiadau y byddech yn eu gwneud a pham.**

8. **Yn unol â Rhan 5 o'r Cod Ymarfer, dylai'r penderfyniad i roi rhybuddiad gael ei gydlofnodi gan Swyddog nad yw ar radd is na gradd Rhingyll (neu oruchwylydd cyfatebol yn staff yr Heddlu). A ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y radd hynafedd hon ar gyfer rhoi rhybuddiad yn un briodol?**

   (Dewiser un: Cytuno'n gryf; Cytuno; Y naill na'r llall; Anghytuno; Anghytuno'n gryf – eglurwch eich ateb a'r radd hynafedd y teimlwch ei bod yn briodol ar gyfer rhoi rhybuddiadau)

9. **Mewn rhai Heddluoedd, mae timau DTALlau canolog sy'n cyflogi staff yr Heddlu (yn hytrach na Swyddogion Heddlu). Er mwyn adlewyrchu hyn, mae'r Cod Ymarfer yn defnyddio'r term 'gradd gyfatebol yn staff yr Heddlu'. Yn eich barn chi, a yw'r term hwn yn glir a defnyddiol?**

   (Dewiser un: ydy; nac ydy)

   **Os ydych wedi dewis 'nac ydy', eglurwch eich ateb ac awgrymu sut y gellid gwella hyn.**

10. **Mae'r Cod Ymarfer yn pennu gofyniad i daliadau digolledu fod yn fforddiadwy.**

    **a) A ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y gofyniad hwn yn ddigonol?**

    (Dewiser un: Cytuno'n gryf; Cytuno; Y naill na'r llall; Anghytuno; Anghytuno'n gryf – eglurwch eich ateb)

    **b) A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y byddai'n well pennu terfyn uchaf ar gyfer taliadau digolledu?**

(Dewiser un: Cytuno’n gryf; Cytuno; Y naill na’r llall; Anghytuno; Anghytuno’n gryf – eglurwch eich ateb)

11. **A ydych yn cytuno neu’n anghytuno bod y gwahaniaeth rhwng y gofyniad am addefiad ar gyfer y rhybuddiadau a’r prawf cod llawn (yn y Cod i Erlynwyr y Goron) wedi’i wneud yn glir yn y Cod Ymarfer?**

    (Dewiser un: Cytuno’n gryf; Cytuno; Y naill na’r llall; Anghytuno; Anghytuno’n gryf)

    **Darparwch unrhyw awgrymiadau i wneud y gwahaniaeth hwn yn gliriach.**

12. **A ydych yn cytuno neu’n anghytuno y dylai’r gofyniad am adrodd ar y defnydd o rybuddiadau, a’r dull o adrodd, gael ei orfodi’n gryfach yn y Cod Ymarfer?**

    (Dewiser un: Cytuno’n gryf; Cytuno; Y naill na’r llall; Anghytuno; Anghytuno’n gryf – eglurwch eich ateb)

13. **Wrth gynnig, egluro a gweinyddu rhybuddiad, a oes ystyriaethau eraill o ran hygyrchedd y dylid eu cynnwys yn y Cod Ymarfer heblaw’r rheini a bennwyd yn barod?**

    (Eglurwch eich ateb)

14. **O safbwynt gweithredu, a oes unrhyw fylchau neu agweddau yn y Cod Ymarfer sy’n peri pryder neu a allai gael effeithiau anffafriol?**

    (Dewiser un: oes; nac oes)

    **Os oes, eglurwch eich ymateb a nodi awgrymiadau ar gyfer ychwanegiadau, pethau i’w dileu neu ddiwygiadau i’r Cod Ymarfer er mwyn darparu ar gyfer agweddau ymarferol ar weithredu.**

15. **A ydych yn cytuno neu’n anghytuno bod yr atodiadau canlynol i’r Cod Ymarfer yn glir a buddiol: Atodiad A: Cymharu datrysiadau; Atodiad B: Egwyddorion ar gyfer Rhybuddiadau Dargyfeiriol Cam-drin Domestig; Atodiad C: Troseddau eithriedig penodedig; ac Atodiad D – Amodau enghreifftiol.**

    (Ar gyfer pob un o’r uchod dewiser: Cytuno’n gryf; Cytuno; Y naill na’r llall; Anghytuno; Anghytuno’n gryf)

    **Os ydych yn anghytuno, nodwch sut y gellid gwneud yr atodiad(au) yn fwy buddiol.**

16. **A oes unrhyw fylchau neu agweddau yn y Cod Ymarfer sy’n peri pryder neu a allai gael effeithiau anffafriol ar unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig?**

(Dewiser un: oes; nac oes)

**Os oes, eglurwch eich ymateb a nodi awgrymiadau ar gyfer ychwanegiadau, pethau i'w dileu neu ddiwygiadau i'r Cod Ymarfer er mwyn ymateb i'r pryderon neu effeithiau anffafriol hyn.**

17. **Yn eich barn chi, a oes unrhyw rannau o'r Cod Ymarfer (sydd heb eu trafod eisoes mewn cwestiynau blaenorol) sydd yn galw am fwy o eglurhad?**

    (Dewiser un: oes; nac oes)

18. **Os oes, nodwch y rhan o'r Cod Ymarfer sy'n galw am fwy o eglurhad a pham. Pa sylwadau eraill sydd gennych, os o gwbl, am faterion sydd heb eu trafod yn y cwestiynau blaenorol yn y ddogfen drwyddi draw?**

**Diolch am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn.**

# Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i gyflwyno gwybodaeth amdanoch chi

| | |
|---|---|
| **Enw llawn** | |
| **Teitl swydd** neu ym mha rinwedd rydych yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd etc.) | |
| **Dyddiad** | |
| **Enw'r cwmni/sefydliad** (os yw'n berthnasol): | |
| **Cyfeiriad** | |
| | |
| **Cod post** | |
| Os hoffech chi i ni gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn | ☐ (ticiwch y blwch) |
| Y cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r uchod | |
| | |
| | |

**Os ydych chi'n cynrychioli grŵp**, rhowch enw'r grŵp hwnnw i ni, os gwelwch yn dda, gyda disgrifiad cryno o'r bobl neu'r sefydliadau rydych yn eu cynrychioli.

# Manylion cyswllt/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 13/10/2023 i:

**Youth Justice and Offender Policy Directorate; Probation Policy – Community Diversion**
Ministry of Justice
Post Point 7.14
102 Petty France
London
SW1H 9AJ

**E-bost**: oocd.consultation@justice.gov.uk

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych chi gwynion neu sylwadau ynghylch y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

## Copïau ychwanegol

Mae rhagor o gopïau papur o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn, ac mae hefyd ar gael ar-lein yn https://consult.justice.gov.uk/.

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatiau eraill drwy anfon e-bost i oocd.consultation@justice.gov.uk.

## Cyhoeddi ymateb

Cyhoeddir papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn erbyn Ionawr 2023. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn https://consult.justice.gov.uk/.

## Grwpiau cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli wrth ymateb.

## Cyfrinachedd

Mae’n bosibl y cyhoeddir neu y datgelir gwybodaeth a roddir wrth ymateb i’r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â’r trefniadau mynediad at wybodaeth (sef, yn bennaf, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am i ni drin y wybodaeth a rowch i ni’n gyfrinachol, cofiwch, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod Cod Ymarfer statudol ar waith y mae’n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef. Mae hwn, ymhlith pethau eraill, yn ymwneud â rhwymedigaethau o ran cyfrinachedd. Yng ngoleuni hyn, byddai o gymorth pe baech yn esbonio pam rydych o’r farn bod y wybodaeth rydych wedi’i darparu yn gyfrinachol. Os cawn gais am ddatgelu’r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gallwn gadw cyfrinachedd o dan bob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG yn cael ei ystyried, ynddo’i hun, yn rhwymol gan y Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data, a gan amlaf, bydd hyn yn golygu na chaiff eich data personol eu datgelu i drydydd partïon.

# Asesiad o’r Effaith a Chydraddoldebau

## Asesiad o’r Effaith

Mae’r Asesiad o’r Effaith ar gyfer Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a’r Llysoedd: Diwygio’r Fframwaith Datrysiadau y Tu Allan i’r Llys i Oedolion ar gael ar-lein yn https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1073440/MOJ_Sentencing_IA_-_OOCD__2022_.pdf.

## Cydraddoldebau

1. O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae’r gyfraith yn rhoi’r Weinyddiaeth Gyfiawnder o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus i roi sylw dyladwy bob amser i’r angen am -

   (a) dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth a mathau eraill o ymddygiad a waherddir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;

   (b) hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau o bobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig a’r rheini nad ydynt yn ei rhannu;

   (c) meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau.

   Rydym hefyd yn cydnabod bod dyletswydd ar y Weinyddiaeth Gyfiawnder fel darparwr gwasanaethau i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl, yn ogystal â rhwymedigaeth i beidio â gwahaniaethu’n uniongyrchol neu’n anuniongyrchol yn erbyn pobl anabl. Wrth roi sylw dyladwy i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae angen ystyried y naw nodwedd warchodedig, sef hil, cyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil, rhywedd (rhyw), crefydd neu gred, ailbennu rhywedd, anabledd, oed a beichiogrwydd a mamolaeth.

2. **Gwahaniaethu uniongyrchol**. Mae hyn yn digwydd lle byddai polisi yn arwain at drin rhywun yn llai ffafriol oherwydd nodwedd warchodedig. Credwn nad yw diwygio’r fframwaith DTALlau yn uniongyrchol wahaniaethol o fewn ystyr Deddf 2010, gan ei fod yn gymwys yn yr un ffordd i’r holl unigolion heb ystyriaeth i’w nodweddion gwarchodedig. Natur y drosedd a chofnod troseddol y troseddwr fydd yn penderfynu a yw’n briodol delio â’r mater heb droi at y llysoedd. Felly, ni fyddai’r un troseddwr yn cael ei drin yn llai ffafriol mewn perthynas ag unrhyw nodwedd warchodedig o ganlyniad uniongyrchol i’r polisi hwn.

3. **Gwahaniaethu anuniongyrchol.** Mae hyn yn digwydd pan fydd polisi penodol yn gymwys i'r un graddau i'r holl unigolion ond y byddai'n rhoi'r rheini sy'n rhannu nodwedd warchodedig o dan anfantais neilltuol o gymharu â'r rheini nad ydynt yn ei rhannu. Credwn y byddai diwygio'r fframwaith DTALlau dwy haen yn gallu peri risg o wahaniaethu anuniongyrchol o fewn ystyr y Ddeddf Cydraddoldeb, fel yr eglurir isod.

   Ar gyfer dwy haen y fframwaith statudol, mae angen i'r troseddwr gyfaddef ei fod yn euog a chytuno i dderbyn y DTALl penodol er mwyn delio â'r drosedd y tu allan i broses y llys. Mae hyn yn adlewyrchu statws y rhan fwyaf o DTALlau, ac eithrio Hysbysiadau Cosb am Anhrefn a Hysbysiadau Cosb Benodedig, nad ydynt yn gofyn i'r troseddwr gyfaddef y drosedd ond sy'n cynnwys mecanwaith sy'n caniatáu i'r troseddwr ddewis cael gwrando ei achos yn y llys.

   Gwyddom yn sgil Adolygiad Lammy mai ychydig o ymddiriedaeth sydd gan rai diffynyddion o leiafrifoedd ethnig yn y system cyfiawnder troseddol neu yn y Swyddogion Heddlu yng ngorsaf yr Heddlu, a bod hyn yn gallu arwain at gynnig ymateb 'dim sylw' ganddynt mewn cyfweliad neu beidio â chyfaddef y drosedd. Gall hyn arwain at uwchgyfeirio'r mater gan yr Heddlu, gan arwain at erlyn.

   Felly mae risg y byddai'r gofyniad i dderbyn cyfrifoldeb neu gyfaddef euogrwydd yn golygu bod unigolion o leiafrif ethnig yn llai tebygol o gael ymyriad cynnar drwy DTALl ac y byddent yn fwy tebygol o gael eu herlyn. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn holi am ystyriaethau o ran cydraddoldeb.

   Mae'n bwysig, felly, wrth ymdrin â'r polisi hwn, ein bod yn gweithio i liniaru'r risg y bydd hyn yn cael ei weld yn rhywbeth a allai roi unrhyw un o dan anfantais. Felly, rydym yn cymryd dau gam pwysig -

   i. Cynnal adolygiad llawn o'r gwerthusiad sydd i ddod o safleoedd peilot Chance to Change a chydweithio â'r rhain.

   ii. Gweithredu'r polisi hwn yng nghyd-destun paneli craffu'r system cyfiawnder troseddol, gyda chadeiryddion annibynnol, a ddylai roi ystyriaeth fanwl i unrhyw ddiffyg cymesuredd mewn perthynas â hil a DTALlau.

   Mae'r model Chance to Change yn rhoi llai o bwyslais ar gyfaddef euogrwydd a gall ddargyfeirio troseddwyr at wasanaethau ymyrryd. Nid yw'n ofynnol gwneud addefiad llawn er mwyn i'r troseddwr gael ei ddargyfeirio fel hyn, er na chaniateir gwadu llwyr.

   Mae'r holl Swyddogion Heddlu eisoes yn dilyn hyfforddiant gorfodol, sy'n cynnwys sylw helaeth i foeseg, cydraddoldebau, hunanddealltwriaeth, troseddau casineb a phlismona heb duedd. Roedd Coleg yr Heddlu, sydd yn gosod ac yn cynnal safonau hyfforddi ar gyfer plismona, wedi cyhoeddi Cod Moeseg yn 2014 sy'n cynnwys set o egwyddorion ar gyfer plismona, yn cynnwys egwyddor y dylai'r holl Swyddogion Heddlu a staff

gymryd camau i wrthwynebu gwahaniaethu a sicrhau bod eu penderfyniadau'n rhydd o ragfarn. Er gwaethaf y risg a nodwyd uchod, credwn fod y newid hwn yn ffordd gymesur i gyrraedd y nod dilys o greu fframwaith DTALlau sy'n darparu cysondeb, symleiddio, a chyfle i ymgysylltu â gwasanaethau ymyrryd. Yn gyffredinol, felly, rydym o'r farn nad yw'r newid mewn polisi yn debygol o arwain at unrhyw wahaniaethu anuniongyrchol anghyfreithlon.

4. **Gwahaniaethu yn codi o anabledd a dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol.** Mewn perthynas â'r pwynt a wnaed uchod am y gofynion ar gyfer derbyn DTALl, mae'n bwysig sicrhau bod unigolion sydd ag anableddau (yn cynnwys y rheini sydd ag anawsterau dysgu neu broblemau iechyd meddwl) yn deall y goblygiadau o gyfaddef euogrwydd neu dderbyn cyfrifoldeb am y drosedd a gyflawnwyd, a sut y gallant gydymffurfio â'r amodau a osodwyd iddynt. Mae'r Cod Ymarfer presennol ar gyfer Rhybuddiadau Amodol Oedolyn yn datgan bod rhaid i swyddogion roi sylw i ddarpariaethau Cod C PACE sy'n ymwneud â throseddwyr sydd ag anhwylder meddwl neu wendid meddwl a'r defnydd o oedolyn priodol. Byddai'r ddarpariaeth hon yn cael ei chryfhau yn y Cod Ymarfer newydd.

   I'r graddau y mae'r newid hwn yn cwmpasu pobl anabl, credwn fod y polisi yn un cymesur, o ystyried ei nod. Ni fyddai'n rhesymol gwneud addasiad fel bod y rheini sydd ag anableddau y tu allan i gwmpas y cynigion, ond mae'n bwysig gwneud addasiadau rhesymol er hynny i sicrhau bod cymorth priodol yn cael ei roi. Nid ydym yn credu bod angen unrhyw addasiadau ar gyfer pobl anabl ar ben y rheini sydd eisoes wedi'u gwneud ar gyfer y rheini sy'n derbyn DTALlau.

5. **Aflonyddu ac Erledigaeth.** Nid ydym yn credu y bydd risg o aflonyddu neu erledigaeth o fewn ystyr y Ddeddf Cydraddoldeb o ganlyniad i'r newid hwn.

6. **Hyrwyddo Cyfle Cyfartal.** Mae DTALlau yn cynnig cyfle i atgyfeirio troseddwyr lefel isel i wasanaethau ymyrryd perthnasol, fel gwasanaethau iechyd a chamddefnyddio sylweddau, i gael sylw i ffactorau isorweddol sy'n cyfrannu at ymddygiad troseddol. Gellir cael cyfleoedd hefyd i atgyfeirio i gyfleoedd mentora a chymorth cyflogaeth. Mae DTALlau yn gallu helpu i ddargyfeirio troseddwyr tro cyntaf a lefel isel oddi wrth gyswllt pellach â'r system cyfiawnder troseddol ac at ddewisiadau bywyd ystyrlon a chyfoethog. Bydd y cyfleoedd hyn gymwys, lle maent ar gael, i holl dderbynwyr DTALlau. Felly credwn y bydd y newidiadau hyn yn helpu i hyrwyddo cyfle cyfartal.

7. **Meithrin Cysylltiadau Da.** Yn ogystal â hyn, rydym yn cydnabod bod yr amcan o feithrin ymddiriedaeth yn yr holl gymunedau yn golygu bod rhaid i weithlu'r Heddlu fod yn adlewyrchiad gwell o'r gymdeithas amrywiol, fodern sydd ohoni heddiw. Mae'r gweithlu Swyddogion Heddlu yn fwy amrywiol o ran ethnigrwydd a rhywedd nag erioed o'r blaen, ond mae llawer mwy i'w wneud eto. Mae'r Swyddfa Gartref wedi ceisio recriwtio 20,000 o Swyddogion Heddlu ychwanegol (dros dair blynedd) erbyn Mawrth

2023 ac mae'r ymgyrch recriwtio hon wedi cyrraedd ei nod. Erbyn mis Mawrth 2023, roedd 20,951 o Swyddogion Heddlu ychwanegol wedi'u recriwtio gan ddefnyddio cyllid i Raglen Cynyddu Niferoedd yr Heddlu6. Roedd yr ymgyrch recriwtio hon wedi rhoi cyfle pwysig i ni ddenu ystod eang o bobl at yrfa yn yr Heddlu a helpu'r Heddlu i gyrraedd y nod hwn. Credwn fod nod polisi y diwygiad i'r fframwaith DTALlau yn ffordd gymesur i gyrraedd ein nod dilys ac y ceir effeithiau cadarnhaol ar gyfer dioddefwyr a'r rheini sy'n derbyn y datrysiadau.

8. **Dadansoddi Parhaus.** Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb yn ddyletswydd barhaus, a byddwn yn tynnu ar unrhyw ddata a allai ddarparu tystiolaeth am effaith y newid hwn.

[6] Police officer uplift, England and Wales, quarterly update to 31 March 2023 - GOV.UK (www.gov.uk)

# Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion a ddylai gael eu mabwysiadu gan adrannau Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi cael eu hamlinellu yn Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet 2018 sydd ar gael yma:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1_.pdf

[Please don't delete the section break beneath this text.]

[leave blank – inside back cover]

E02950279

978-1-5286-4375-7